

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Llun, 8 Gorffennaf 2024 0300 200 6565
Amser: 14.00 Deisebau@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(Tudalennau 1 – 29)

2 Deisebau newydd

- 2.1 P-06-1422 Diddymu'r terfyn cyflymder 20mya ar y TRA4076 yn Johnston, Sir Benfro
(Tudalennau 30 – 40)
- 2.2 P-06-1428 Stopiwch y llifogydd yn Cae Nant Terrace, Sgiwen NAWR!
(Tudalennau 41 – 50)
- 2.3 P-06-1436 Dileu cynlluniau i newid strwythur y flwyddyn ysgol
(Tudalennau 51 – 59)
- 2.4 P-06-1442 Ehangu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion uwchradd
(Tudalennau 60 – 69)
- 2.5 P-06-1443 Ailsefydlu cyllid craidd ar gyfer TRAC Cymru (Traddodiadau Cerdd Cymru)
(Tudalennau 70 – 72)
- 2.6 P-06-1445 Newid Treth Trafodiadau Tir ar gyfer y rheini sy'n prynu cartref am y tro cyntaf yng Nghymru, i fod yn unol â Llywodraeth y DU
(Tudalennau 73 – 80)
- 2.7 P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas
(Tudalennau 81 – 93)
- 2.8 P-06-1448 Atal llygredd ym Mae'r Tŵr Gwyllo ac Aberogwr
(Tudalennau 94 – 101)



2.9 P-06-1456 Ymchwiliad cyhoeddus llawn i gau canolfannau Ambiwylans Awyr Cymru yng nghanolbarth a gogledd Cymru

(Tudalennau 102 – 104)

3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

3.1 P-06-1291 Cynnal ymchwiliad i'r pryniant corfforaethol o'r proffesiwn milfeddygol yng Nghymru.

(Tudalennau 105 – 106)

3.2 P-06-1374 Dylai tirfeddiannwyr Cymru – yn yr un modd â Lloegr – allu caniatáu 60 diwrnod y flwyddyn o wersylla mewn pebyll a faniau.

(Tudalennau 107 – 110)

3.3 P-06-1398 Cynyddu effeithiolrwydd gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i atal llygredd yn y Teifi.

(Tudalennau 111 – 125)

3.4 P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod.

(Tudalen 126)

3.5 P-06-1437 Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol

(Tudalen 127)

4 Papur i'w nodi

4.1 P-06-1368 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i gadw'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol mewn perthynas â Chymru

(Tudalennau 128 – 140)

4.2 P-06-1408 Dylid gwneud y mynediad i Ardd Gudd A4042 Goetre Fawr yn ddiogel ar gyfer cerddwyr a cherbydau

(Tudalen 141)

- 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

- 6 Diweddariad ar Adroddiad Blynyddol a'r Eisteddfod

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

P-06-1422 Diddymu'r terfyn cyflymder 20mya ar y TRA4076 yn Johnston, Sir Benfro

Y Pwyllgor Deisebau | 8 Gorffennaf 2024
Petitions Committee | 8 July 2024

Cyfeirnod: SR24/8458 - 12

Rhif y ddeiseb: P-06-1422

Teitl y ddeiseb: Diddymu'r terfyn cyflymder 20mya ar y TRA4076 yn Johnston, Sir Benfro

Geiriad y ddeiseb: Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch gostwng y terfyn cyflymder i 20mya yn nodi y dylid "yn gyffredinol" eithrio ffyrdd dosbarth A a B.

Mae'r TRA4076 trwy Johnston, Sir Benfro, yn rhan o'r prif rwydwaith trefol sy'n cysylltu de ein sir â'r ysbyty a'r dref sirol. Mae'n glirffordd drefol heb unrhyw leoedd parcio ar y stryd, llwybrau troed ar y ddwy ochr a dwy groesfan i gerddwyr a reolir gan oleuadau. Nid oes unrhyw gyfiawnhad dros ostwng y terfyn cyflymder ar y darn hwn o'r ffordd i 20mya.

1. Y cefndir

Yn 2019 sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried a ddylai 20mya ddod yn derfyn cyflymder diodyn mewn ardaloedd preswyl. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y grŵp, gan gynnwys y dylid lleihau'r terfyn



cyflymder diofyn ar ffyrdd cyfyngedig – y rheini â goleuadau stryd heb fod yn fwy na 200 lath oddi wrth ei gilydd – o 30mya i 20mya.

Yn dilyn ymgyngoriad cyhoeddus a chynllun peilot ar draws wyth cymuned, gosododd Llywodraeth Cymru Orchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20mya) (Cymru) ym mis Mehefin 2022. Cafodd y Gorchymyn drafft ei basio gan y Senedd ym mis Gorffennaf 2022, a daeth i rym ar 17 Medi 2023 pan roddwyd y newid ar waith.

Mae'r A4076 yn gefnffordd 9 milltir o hyd yn sir Benfro. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Rwydwaith Ffyrdd Strategol Cymru (y rhwydwaith cefnffyrdd a thraffyrdd), ac mae'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i ddau asiant cefnffyrdd. Asiant Cefnffyrdd De Cymru sy'n gyfrifol am yr A4076.

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weddill y rhwydwaith ffyrdd, lle mae'r rhan fwyaf o'r ffyrdd cyfyngedig yr effeithir arnynt gan y newid i'r terfyn cyflymder wedi'u lleoli.

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Wrth baratoi ar gyfer rhoi'r terfyn cyflymder 20mya ar waith ar ffyrdd cyfyngedig, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar osod eithriadau i'r terfyn cyflymder rhagosodedig 20mya ar gyfer ffyrdd cyfyngedig (y 'canllaw eithriadau'). Mae hwn yn atodiad i Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru, a gyhoeddwyd yn 2009.

Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio gan awdurdodau priffyrdd i nodi lle y dylid gwneud eithriadau i'r terfyn cyflymder ffordd cyfyngedig newydd o 20 mya. Erys yr eithriadau hyn ar 30mya.

Bu amrywiaeth sylweddol o ran cymhwyso eithriadau ledled Cymru. Yn ôl dadansoddiad gan Ymchwil y Senedd, mae 3% o ffyrdd, yn ôl eu hyd, yn 30mya ac ar ôl y newid, mae amrywiaeth eang ledled Cymru. Er enghraifft, yn Abertawe, arhosodd 10.3% o'r rhwydwaith ffyrdd ar 30mya, o'i gymharu â 0.6% yn Sir Ddinbych. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys ffyrdd cyfyngedig ac anghyfyngedig o 30mya, a chefnffyrdd a ffyrdd lleol, fel ei gilydd.

Yn dilyn ymateb cyhoeddus sylweddol i'r broses o roi'r polisi ar waith, ar 24 Ionawr, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi adolygiad o'r ymagwedd at eithriadau. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad fe'i gwnaed yn glir y byddai'n " archwilio sut y caiff y canllawiau a roddir i awdurdodau priffyrdd eu cymhwyso wrth osod

eithriadau i'r terfyn 20mya diofyn.". Cafodd yr adroddiad terfynol o'r adolygiad ar yr eithriadau diofyn ei gyhoeddi ar 24 Mai.

Ers hynny cafwyd Prif Weinidog newydd, a Gweinidog Trafnidiaeth newydd. Dywedodd Vaughan Gething AS, y Prif Weinidog newydd, yn ystod ei ymgyrch am yr arweinyddiaeth fod Llywodraeth Cymru wedi cael peth o'r ochr gyfathrebu yn anghywir o ran y polisi.

Wrth nodi ei flaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth yn y Senedd, dywedodd Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, Ken Skates AS, er bod Llywodraeth Cymru yn "parhau i gredu mai 20 mya yw'r terfyn cyflymder cywir mewn mannau ger ysgolion, ysbytai, meithrinfeydd, canolfannau cymunedol, mannau chwarae ac mewn ardaloedd preswyl adeiledig", mae'n "bwrw ymlaen â mireinio'r polisi".

Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet gynlluniau i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y ceir y cyflymder cywir ar y ffyrdd cywir. Mae hyn yn cynnwys adolygu sut mae ei ganllawiau i awdurdodau priffyrdd ar osod eithriadau i'r terfyn wedi'u cymhwyso. Er bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i hyn, gyda gwaith yn mynd rhagddo'n dda, dywedodd ei fod, bellach, wedi gofyn i'r adolygiad ddod i "gasgliad cyflym", ac ymrwymo i gyhoeddi'r adroddiad.

Mae'r llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet at y Cadeirydd ar y ddeiseb hon yn amlinellu'r dull o gynnal y broses adolygu.

Yn ôl data agyhoeddwyd ar 6 Mehefin gan yr heddlu, ynghylch gwrthdrawiadau, mae nifer yr anafusion a gwrthdrawiadau wedi lleihau mewn ardaloedd 20mya a 30mya.

Gwnaeth y datganiad sy'n cyd-fynd â hynny, a gyhoeddwyd gan y Ysgrifennydd y Cabinet, amlygu bod anafiadau chwarter 4 2023 (Hydref i Ragfyr) ar ffyrdd 20mya a 30mya wedi gostwng 218 o 681 yn 2022 i 463 yn 2023, y "ffigwr chwarterol isaf a gofnodwyd [mewn ardaloedd 20mya a 30mya]y tu allan i gyfnod pandemig Covid."

3. Camau gan Senedd Cymru

Tra bod y polisi 20mya wedi cael ei drafod yn helaeth ledled y Senedd, nid yw'n ymddangos bod y terfyn cyflymder ar yr A4076 yn Johnston, Sir Benfro wedi'i godi.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried nifer o ddeisebau ar gyflymder o 20mya, yn fwyaf diweddar y ddeiseb fwyaf yn hanes y Senedd yn gwrthwynebu'r polisi, a gwrthddeiseb lai:

- P-06-1407 Rydym am i Lywodraeth Cymru ddiddymu'r gyfraith drychinebus ynghylch y terfyn cyflymder o 20mya; a
- P-06-1412 Rydym am i Lywodraeth Cymru gadw'r gyfraith 20mya ardderchog.

Ystyriwyd y naill a'r llall yng Nghyfarfod y Pwyllgor Deisebau ar 22 Ebrill. Cyfeiriodd y Pwyllgor ddeiseb P-06-1407 ar gyfer Dadl yn y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd ar 22 Mai.

Ar 17 Ebrill, gwrthododd y Senedd gynnig gan alw am wrthdroi'r polisi, yn lle hynny fe gytunodd ar welliant yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r angen i fireinio'r gweithrediad. Yn ystod y ddadl, awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet fod angen "sichrau bod terfynau 20 mya yn cael eu targedu'n briodol" mewn manau "lle mae plant a'r henoed mewn perygl".

Fel y nodwyd uchod, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet nodi ei flaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth, gan gynnwys y polisi 20mya, yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Ebrill 2024.

Gwneir pob ymdrech i sichrau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1422
Ein cyf/Our ref LW/00562/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

14 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mawrth yn darparu manylion ynghylch Deiseb P-06-1422 Diddymu'r terfyn o 20mya ar TRA4076 yn Johnston Sir Benfro.

Prif amcan y polisi diofyn o 20mya yw arbed bywydau a lleihau'r nifer sy'n cael eu hanafu ar y ffyrdd. Rwyf am adeiladu ar y consensws bod 20mya yn iawn o amgylch ysgolion, ysbytai ac mewn ardaloedd preswyl adeiledig.

[Fodd bynnag, ni allwn ddianc rhag y ffaith bod 20mya wedi polareiddio'r bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Yn erbyn y cefndir hwnnw, ro'n i'n teimlo y dylem gymryd cam yn ôl a gwrando ar farn pawb a fu'n chwarae rhan.](#)

Er mwyn cefnogi'r Rhaglen Wrando Genedlaethol rwyf wedi'i chychwyn, rydym wedi cyhoeddi [tudalen we](#) i helpu i gyfeirio pobl at yr awdurdod priffyrdd perthnasol pan fyddant am roi adborth ar derfynau cyflymder penodol.

O dan arweiniad y cyfarfodydd rhanbarthol rydym yn eu rhoi ar waith gyda chefnogaeth Trafnidiaeth Cymru, a chyda chymorth Cymdeithas Syrffewyr Sirol Cymru, rydym am greu fframwaith ar y cyd sy'n cefnogi'r awdurdodau priffyrdd i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer ffyrdd lleol – yn enwedig pan fydd y penderfyniadau hynny'n anodd iawn.

Bydd y fframwaith hwnnw'n cael ei gyhoeddi cyn toriad yr haf. Ar ôl toriad yr haf, byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau priffyrdd yn y cyfnod gweithredol o asesu ffyrdd, gwneud gorchmynion rheoleiddio traffig ac yn olaf wrth roi newidiadau ar waith ar lawr gwlad. Rydym yn cydnabod na fyddwn o bosibl yn gweld unrhyw newidiadau ar lawr gwlad am sawl mis ar ôl mis Medi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 34
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yna bydd fy swyddogion yn canolbwyntio ar flaenoriaethu canllawiau ar gyfer terfynau cyflymder eraill lle mae pobl yn byw.

[Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys tudalen Cwestiynau Cyffredin wedi'i diweddarau, ar gael yn:](#)

[Cyflwyno terfynau cyflymder 20mya: cwestiynau cyffredin | LLYW.CYMRU](#)

[Terfynau cyflymder 20mya | Is-bwnc | LLYW.CYMRU](#)

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', written in a cursive style.

Ken Skates AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for North Wales and Transport

**P-06-1422 Rescind the 20mph limit on TRA4076 at Johnston Pembrokeshire
- Correspondence from the Petitioner to the Committee, 25 June 2024**

I have written to Trunk20mph on 3rd of May.

The reasons for excepting this road are laid out in the petition which are in keeping with the original exception guidance issued.

I would argue with the cabinet minister that the 20mph zones were introduced to manage demand and motivate a shift away from private car use as stated in WG transport strategy....and the legislation introduced by the deputy climate change minister suggests this was the priority rather than safety.

A House of Lords report on Behaviour change for climate and environmental goals also stated the measures that could dissuade private vehicle use would include reduced speed limits.

Every sensible person applauds lower limits near schools however imposing a 20mph limit on what is a main arterial route through the county is not sensible.

Thank you for your consideration of this petition.



Closed petition

Rescind the 20mph limit on TRA4076 at Johnston Pembrokeshire


Welsh Government guidance for reduction of limits to 20mph said that “generally” A and B classified roads should be exempted.

TRA4076 through Johnston Pembrokeshire forms part of a principle urban network linking the south of our county to our county town and hospital. It is an urban clear way with no on street parking, footpaths both sides and two light controlled pedestrian crossings. There is no justification for this stretch of road being reduced to 20mph.

This petition is now under consideration by the Petitions Committee

Petitions that collect more than 250 signatures are discussed by the Petitions Committee

301 signatures





to book cycle hire as one leg of a sustainable public transport journey. Our future plans include more e-bike and e-cargo bike loan and hire schemes. Building on existing pilots we have allocated further funding over the next three years to develop further schemes.

- **Addressing pavement parking and road obstruction** - we will create places where pedestrians can walk freely without having to step into the carriageway because a vehicle is parked on the pavement. In 2023, we are intending to introduce new civil enforcement powers that will enable local authorities to address pavement parking in their areas. A working group involving all stakeholders is will draft enforcement guidance for local authorities before the legislation comes into force to help ensure a consistent approach is taken across Wales.
- **Introduce a national default 20mph speed limit on restricted roads** - decreasing speeds reduces collisions, saves lives and helps improve quality of life - making our streets and communities a safer and more welcoming

sustainable transport, we will introduce:

- **Welsh language standards** - for those who provide bus services in Wales and ensure there is training in place to ensure that drivers make everybody feel welcome and safe. Customer focussed and Welsh language training programmes as well as improved passenger communications will continue to be rolled out on the rail network.
- **Safety training** - We will continue to support the safety of our pupils with school-based training. This will include child pedestrian training and improving consistency of cycle training delivery through the introduction of the [Bikeability National Standards](#) into Wales. We will increasingly encourage the expansion of training outside of school. This will include the provision of inclusive training opportunities within our communities for all adults as well as children.

3. What we will deliver – key priorities

3.3.3. Motivation to make a shift away from private car use

We will work with partners to develop education, marketing and other tools to transform the image of walking, cycling and public transport – this will include further support to expand TW’s community engagement role to include travel planning, supporting partners and other organisations to deliver facilities and programmes which encourage modal shift.

In 2022 we delivered a Public Transport Recovery Campaign to help address the challenges of attracting people back to using public transport. The first phase of this was launched in April as ‘the real social network’.

Working with our partners we will use our future campaigns and marketing materials to build on our investments in walking, cycling and public transport to transform their image and become the natural choice for everyday journeys. We will refresh these campaigns as behaviours change to maintain the momentum and embed sustainable choices for the future.

To be motivated to a sustainable choice it is vital that people feel safe, welcome, comfortable and confident when using public transport and other sustainable travel modes. We have a wide range of projects across each mode and sector to transform customer experiences, from developing national

standards for taxis to improving accessibility, facilities and signage at our rail stations.

For customers to be confident to use our sustainable transport services they must be reliable. Our investment in vehicles and rolling stock, the redesign of bus networks and prioritising road space for sustainable transport will support this reliability and build the confidence that services will be there when needed.

Our work on integrated ticketing and journey planning outlined in priority 2, above, is essential to improving the customer experience of sustainable transport by making it easy and affordable to use for door-to-door journeys.

We will also motivate people away from private car use through **demand management** - the Wales Transport Strategy includes a commitment to develop a national road user charging framework. Further work will be undertaken to develop a fair and equitable road user charging framework, including how local authorities can borrow against these future revenue streams to fund transport improvements; and also consider other alternatives such as workplace car parking levies and road space reallocation.

4. What we will deliver: transport modes and sectors



- (d) Revised planning processes which prioritise shorter distances between housing and amenities and active travel infrastructure, and supporting local amenities to reduce the need for longer journeys.²⁸⁰
- (e) Investment into behaviour change campaigns and education, though while some witnesses stressed the importance of these activities several others argued that measures like improving infrastructure should be a higher priority.²⁸¹

170. The measures that could dissuade private vehicle use include:

- (a) Changing rules on the use of roads, such as reduced speed limits, school streets, low traffic neighbourhoods and other measures which prioritise access for other road users over private cars. Witnesses said some local government bodies did not have the necessary powers to deliver some of these measures effectively.²⁸²
- (b) Road pricing, congestion charging, low emission zones, higher parking costs, workplace parking levies and other charges levied for private vehicle use. Some witnesses suggested charges could perform a dual function of disincentivising car use and raising funds for improvements to active travel infrastructure and public transport.²⁸³

171. More widely, Prof Anable called for the Government to establish an overall car traffic reduction target—similar to that adopted by the Scottish Government of a 20 per cent reduction by 2030—and to develop a delivery plan against this.²⁸⁴ Ms Berge explained that the Scottish Government published in January 2022 a “route map to reduce car use by a fifth by 2030 (against a 2019 baseline)”,²⁸⁵ which includes a commitment to spend 10 per cent of the transport budget annually on active travel from 2024–25.²⁸⁶

Government position

172. In his evidence to the Committee, Mr Hands referred to the Government’s commitment to phase out new petrol and diesel cars by 2030,²⁸⁷ while Andrew Jackson, Deputy Director of 25 Year Environment Strategy Team for Defra, said: “Look also in transport at the decarbonisation that we have had and *The Road to Zero Strategy*, where we have made electric vehicles more affordable. The uptake of electric vehicles through grant schemes starts to then trickle down into second-hand markets. That again facilitates choice for the customer.”²⁸⁸ In relation to EV charging infrastructure, Mr Hands told us:

P-06-1428 Stopiwch y Llifogydd yn Cae Nant Terrace, Sgiwen NAWR!

Y Pwyllgor Deisebau | 8 Gorffennaf 2024
Petitions Committee | 8 July 2024

Cyfeirnod: SR24/8813-1

Rhif y Ddeiseb: P-06-1428

Teitl y ddeiseb: Stopiwch y Llifogydd yn Cae Nant Terrace, Sgiwen NAWR!

Geiriad y ddeiseb:

Am y 40 mlynedd diwethaf, mae Cae Nant wedi dioddef llifogydd yn rheolaidd oherwydd nad yw'r cwlferd a'r system ddraenio yn gallu ymdopi â faint o ddŵr. Ac eto, mae'r teras yn cael ei droi'n afon gyda miloedd o alwyni o ddŵr yn arllwys i lawr y ffordd a'r lôn gefn. Mae un tŷ wedi dioddef llifogydd sylweddol yn yr achos diweddaraf hwn o dorri'r rheolau.

Mae'r cyngor wedi bod yn dweud wrth drigolion ers blynnyddoedd y bydd yn cael ei drwsio, ond rydym bellach wedi cael digon ac yn deisebu i sicrhau bod:

- Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cytuno ar ateb sy'n dileu'r risg y bydd y llifogydd rheolaidd hyn yn digwydd eto; a
- Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddarparu i gyflawni'r gwaith cyn gynted â phosibl.

Dywedodd y swyddog draenio ddoe nad yw'r system yn addas i'r diben, ac rydym yn annog pob corff cyfrifol i gymryd camau nawr.



1. Y cefndir

Mae'r papur briffio hwn gan Ymchwil y Senedd yn rhoi trosolwg o lifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Mae'n nodi'r cyd-destun o ran deddfwriaeth a pholisi, ac yn amlinellu'r trefniadau ariannu i fynd i'r afael â Llifogydd.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn deddfu ynghylch Llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru a Lloegr. Mae adran 6 o'r Ddeddf yn diffinio rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Rheoli Risg. Yng Nghymru, y rhain yw Cyfoeth Naturiol Cymru, pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru (sy'n gweithredu fel awdurdodau llifogydd lleol arweiniol), awdurdodau priffyrdd a chwmnïau dŵr a charthffosiaeth. Mae cyrff eraill sydd â rôl anstatudol o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys tiffeddianwyr preifat a pherchnogion asedau seilwaith.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu Strategaethau Lleol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd, a'u rhoi ar waith. Mae'r strategaethau lleol yn gosod amcanion ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol o ddŵr wyneb, dŵr daear a chyrsgiau dŵr cyffredin, a rhaid iddynt gyd-fynd â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Cyngor Castell-nedd Port Talbot yw'r awdurdod llifogydd lleol arweiniol ar gyfer Cae Nant Terrace, a chyhoeddodd ei Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yn 2013.

Yn gyffredinol, perchnogion eiddo sy'n gyfrifol am bibellau draenio preifat y tu mewn i'w cartref ac o fewn ffiniau eu heiddo. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddraeniau wedi blocio ar eiddo y maent yn ei reoli, draeniau ar briffyrdd a chwteri. Rhoddir manylion y chyfrifoldebau hyn ar wefan Dŵr Cymru.

1.1. Llifogydd ar Cae Nant Terrace

Yn Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd 2013 Cyngor Castell-nedd Port Talbot, rhestrir Cae Nant Terrace fel lleoliad lle mae pryderon penodol am berygl llifogydd yn effeithio ar 33 eiddo. Cyfeirir at achos y llifogydd fel "Methiant yr hen system ddraenio storm i ddygymod â llifoedd o law dwys a pharhaus".

Ym mis Hydref 2023, dywedodd adroddiad gan ITV am y llifddwr hwnnw ar Cae Nant Terrace, Sgiwen:

...it's coming from an underground waterpipe located between two houses on the street... a manhole cover in the lane which conceals the culvert is unable to cope with excess rainfall and is dislodged during heavy downpours. That allows water to escape from the pipe and flood the area.

O ran cyfrifoldeb am y llifogydd ym mis Hydref 2023 a chamau a gymerwyd gan gyngor Castell-nedd Port Talbot, dywedodd [llifogydd mewn dyfyniad ar Wales Online](#):

Responsibility for piped watercourses within an associated piece of land transfers with sale of the property... This is the situation regarding these two properties in Caenant Terrace. There has been a problem with a pipe carrying a watercourse across their land and a blockage has occurred, which the owners have legal responsibility to address. The property owners in this case have had many opportunities to address the problem but have not done so.

...The council has served a legal notice served on the landowners to take action and in the absence of a response and in the interests of local residents, it arranged for a contractor to undertake works to repair the land drainage pipe.

This has been undertaken without prejudice, as, by law, the drainage at this location is owned by the residents of the said properties and is not a council asset nor a council responsibility. The works are now virtually completed.

Bu llifogydd yn Sgiwen o'r blaen, [ym mis Ionawr 2021](#), wedi i ddŵr gronni o dan y ddaear a pheri i ddŵr o hen safle glofaol lifo i'r wyneb. Arweiniodd hynny at orfod gwagio 80 o gartrefi, yn bennaf ar Dynevor Road, y mae llinell reilffordd rhyngddi a Cae Nant Terrace.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu cyllid bob blwyddyn i Awdurdodau Rheoli Risg drwy'r [Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol](#). Gall Awdurdodau Rheoli Risg wneud cais am arian "i ddarparu rhaglen o waith cyfalaf i leihau'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i gymunedau ledled Cymru". Cyngor Castell-nedd Port Talbot yw'r Awdurdod Rheoli Risg ar gyfer Sgiwen, a dyfarnwyd £329,151.28 iddo ers 2021 ar gyfer gwaith ar Cae Nant Terrace, y manylir arno yn y

tabl isod. Ar gyfer 2022-23, 2023-24 a 2024-25, cyfnod y gwaith a restrwyd ar gyfer y prosiectau hyn oedd 'Achos Busnes Llawn / Dyluniad'.

Blwyddyn	Cyllid rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a ddyrannwyd
2024-25	£104,126
2023-24	£163,750
2022-23	£34,127
2021-22	£27,148.28

Wrth ymateb i'r ddeiseb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS, fod "Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o 100% i'r RMA i gynnal Dylunio Manwl a drafftio Achos Busnes Llawn" a bod Cyngor Castell-nedd Port Talbot "yn bwriadu cwblhau'r dyluniad a gwneud cais am gyllid adeiladu yn gynnar yn 2025".

Yn dilyn llifogydd ar Cae Nant Terrace ym mis Hydref 2023, dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru wrth ITV:

We have provided Neath Port Talbot County Borough Council with £765,000 to develop a scheme for Caenant Terrace, and they are currently working on a scheme that will benefit the wider community of Skewen.

Once this is completed, the local authority will need to submit a bid for construction funding.

Yn ei ymateb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod:

...cwmpas y cynllun wedi tyfu wrth i'r RMA geisio mynd i'r afael â phob ffynhonnell o lifogydd. Cafodd ardal y cynllun lifogydd hefyd o geuffordd pwll hanesyddol ym mis Ionawr 2021, a oedd angen ystyriaeth bellach o fewn cwmpas y cynllun.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Ni fu unrhyw weithgarwch gan y Senedd ynghylch y llifogydd yn Cae Nant Terrace, ond trafodwyd y llifddwr o'r hen safle glofaol yn Sgiwen yn dilyn cwestiwn amserol gan David Rees AS i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd, Julie James AS, ar 27 Ionawr 2021.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1428
Ein cyf/Our ref HIDCC/05533/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

21 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ynglŷn â'r ddeiseb P-06-1428 Atal llifogydd yn Caenant Terrace, Sgiwen.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu ein Hawdurdodau Rheoli Risg (RMAs) i gyflawni cynlluniau llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r Rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM). Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yw'r RMA sy'n ymgymryd â'r cynllun yn Caenant Terrace, Sgiwen.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid o 100% i'r RMA i gynnal Dylunio Manwl a drafftio Achos Busnes Llawn. Mae fy swyddogion wedi cael gwybod gan yr RMA eu bod yn bwriadu cwblhau'r dyluniad a gwneud cais am gyllid adeiladu yn gynnar yn 2025.

Mae'r llifogydd yn Caenant Terrace yn fater cymhleth. Mae cwmpas y cynllun wedi tyfu wrth i'r RMA geisio mynd i'r afael â phob ffynhonnell o lifogydd. Cafodd ardal y cynllun llifogydd hefyd o geuffordd pwll hanesyddol ym mis Ionawr 2021, a oedd angen ystyriaeth bellach o fewn cwmpas y cynllun.

Dwi'n gobeithio bod hyn yn helpu am nawr. Dwi'n flyn dw i ddim yn gallu darparu ymateb diffiniol eto

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 46
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

P-06-1428 Stop the flooding in Caenant Terrace, Skewen NOW, Correspondence from Petitioner to Committee, 1 July 2024

Good morning Ms Imperato

Many thanks for the update on the above position and the attached document from Huw Irranca-Davies regarding NPTCBC's plans.

My responses to the following:

- What are your thoughts on the attached document? The council have been promising for decades that they will resolve the issues we face many times per year. The flooding has been happening since the 1950s, I attach for the Senedd's information, a copy of a newspaper article dating back to 2001 when we were promised a solution. Sadly, we no longer believe a word that the council tells us.
- Does it adequately address the issues that you raised? No, due to the historical information we had, prior to purchasing our adapted bungalow (I am in a wheelchair), we undertook a flood report and the analysis plots exactly the course of the flooding caused by the culvert which can't cope with the amount of water that runs through it, I attach a copy of the relevant page which shows the high risk of flooding from the culvert and the risk of flooding at the bottom of the Terrace is affected by issues with the mine workings, which is what happened when the mine shaft collapsed. I also attach a copy of an e-mail received from NPTCBC who state that there was flooding in 1997 - in many face-to-face meetings the council has denied that there has ever been any flooding!
- Do you have further questions in response? If this proposal isn't accepted, will there be work done just on our street or will we have to wait many more years for a new proposal?
- Is there anything additional that you would like the Committee to know at this stage, either in response to this document or as an update to the Committee? Please could they see the attached videos showing what we have to suffer from in our street.

Regards SMKerslake

FW: Caenant Terrace

Glen Watkins

Mon 21/03/2016 15:41

Info:

To: 'smk1@hotmail.co.uk' <smk1@hotmail.co.uk>

From: Glen Watkins
Sent: 18 March 2016 14:54
To: 'smk1@hotmail.com'
Subject: Caenant Terrace

Dear Mrs Kerflake

Further to your recent telephone conversation and the risk associated with flooding at No.42 Caenant terrace I can report as follows:-

There is a history of flooding affecting properties in Caenant Terrace with the last flood being recorded in 1997 (where the rear wall of 38 collapsed under pressure of flood water between the railway embankment and the property). The flooding threat is associated with a culvert in various ownerships (private where it passes beneath land in private ownership and NPT where it lies beneath the highway), the threat being associated with the capacity of the culvert and concerns over its condition. Whilst the authority has permissive powers which may be used to undertake repair and upgrading works on private land, it is not bound to do so (ultimate liability for private sections lying with the landowner) and can only undertake work where funding permits. Funding is dependent upon grant funding from Welsh Government being match funded by authority capital funds. A study has been undertaken and it has been identified that it would cost in the region of £800k to implement a flood relief scheme for Caenant Terrace. At present no funding is forthcoming. The authority currently cleans the inlet grid (on private land on a without prejudice basis) to the rear of the snooker hall car Park (this being in the interests of the authority and residents to do so). Some minor improvement works were undertaken here in 2011 so as to make the grid easier to maintain and reduce the risk of flooding. It should be noted that this work is not the ultimate solution and there remains a risk to those properties in the area. (including for no.42).

Regards

Glenn Watkins

Underground investigation to try to solve culvert problem Residents' flooding misery may be over



By PAUL LEWIS

RESIDENTS of a Skewen street who have endured years of flooding have had their first glimpse of a possible end to their misery.

Neath Port Talbot Council is taking the first steps towards what people living in Caenant Terrace hope will be a permanent solution.

A culvert in the street is unable to cope when the weather is particularly bad leading to serious problems in the area.

But now the council has agreed to pay for an underground investigation to find out why water in the culvert frequently backs up.

Skewen councillor Glaslyn Morgan said he, along with colleague Betsan Powell, had been calling for action for years.

Weather

"Every time the weather is bad there is a great deal of anxiety in Caenant Terrace," said Councillor Morgan today.

"There has been some terrible flooding there in recent years and I can fully understand the misery this causes for residents."

Councillor Morgan said he had explained to the people of Caenant Terrace that the authority only had money available for a survey.

"Whatever remedial work is required is likely to be very expensive and the council is short of resources," he added.

"But at least we will know what needs doing and how much it will cost and then it is a matter of trying to find the money."

"Because of the limited budget there cannot be an overnight solution but at last this is a very welcome step in the right direction."

Chocolate treasure to hunt

THE Easter Bunny will be busy in Swansea's Eastside this week.

He has decided to extend his working hours to tomorrow so he can hide Easter eggs in Bontawe House for its Grand Easter Eggstravaganza.

The house's first-ever Easter egg hunt in Talfan Road, Bonymaen, will provide an opportunity for children under 10 to explore the community facility and hopefully find some chocolate treasure.

The hunt will be held between 10.30am and 12.30pm and for more information ring Bontawe House on Swansea 301851.

Recruitment top in country

SOUTH Wales Police had the best recruiting record of any force in the country in the final three months of last year, Home Office statistics have revealed.

The force recruited 116 new officers and lost 24 during the period.

Dyfed-POWYS Police recruited 36 during the time while 18 officers left the force.

Jewels stolen in burglary

A CARRIAGE clock, jewels, an Alpha hi-fi and an Olympus camera were stolen from a mid-terrace house in Gwyllfa Road, Towhill, Swansea, by thieves who forced the back door some time during the day on Friday.

Have you got a story - ring 01792 514606

JBA Surface Water (Pluvial) Flood Map



JBA Surface Water Flood Legend

© Crown copyright and database rights 2016. Ordnance Survey License 100035207.

The data is provided by JBA Risk Management Limited, © Jeremy Benn Associates Limited and JBA Risk Management Limited 2008-2015.



Report Reference: 51001123797001

If you would like any further assistance regarding this report then please contact Groundsure on (T) 08444 139 000, email: info@groundsure.com

Dileu cynlluniau i newid strwythur y flwyddyn ysgol

Y Pwyllgor Deisebau | 8 Gorffennaf 2024
Petitions Committee | 8 July 2024

Cyfeirnod: SR24/8622-4

Rhif y Ddeiseb: P-06-1436

Teitl y ddeiseb: Dileu cynlluniau i newid strwythur y flwyddyn ysgol

Geiriad y ddeiseb: Nid yw sylfaen dystiolaeth Llywodraeth Cymru yn ddigon cadarn i gyfiawnhau'r newidiadau arfaethedig, a fydd yn tarfu'n sylweddol ar ein hysgolion ac ar y sectorau amaethyddol a thwristiaeth yng Nghymru.

Credwn nad nawr yw'r amser i newid strwythur y flwyddyn ysgol a gwneud y gwyliau haf yn fyrrach. Mae'r sector addysg yng Nghymru wedi wynebu newidiadau sylweddol, sydd wedi cael effaith fawr ar lwythi gwaith a llesiant ein gweithlu.

Mae'r gwyliau haf yng Nghymru ymhlith y byrraf yn Ewrop. Mae myfyrwyr ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yn yr Eidal, Portiwgal, a Sbaen yn elwa o wyliau haf hir o 12 i 13 wythnos. Mae disgyblion yn Sweden yn cael 10 wythnos o wyliau haf, 8 wythnos yn Ffrainc a Norwy, a 7 wythnos yn yr Almaen. Perfformiodd yr holl wledydd hyn yn well na Chymru yn y canlyniadau PISA diweddaraf.

At hyn, nid yw'r cynlluniau'n cymryd lle cynnig cymorth digonol i blant difreintiedig a'u teuluoedd, megis cyfleoedd i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau a gweithgareddau chwaraeon a gweithgareddau creadigol sydd wedi'u hariannu.



<https://www.oecd-ilibrary.org/sites/9149c2f5-en/index.html?itemId=/content/component/9149c2f5-en>

1. Y cefndir

Ym mis Rhagfyr 2017, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o delerau ac amodau athrawon ysgol. Roedd adroddiad y panel adolygu, sef [Addysgu: proffesiwn gwerthfawr](#) (ym Medi 2018) yn argymhell y dylid sefydlu Comisiwn i 'ail-greu addysg yng Nghymru'. Byddai hyn yn cynnwys trafod a ddylid ailstyried rhediad y flwyddyn ysgol, patrwm tymhorau a gwyliau, a ffurf y diwrnod ysgol.

Penodwyd Panel Arbenigol yn 2019 i ymgymryd â cham cyntaf y gwaith. Roedd disgwyl i'r Panel gyflwyno ei adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn mis Medi 2019. Ym mis Ionawr 2021, fodd bynnag, dywedodd Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg ar y pryd, fod COVID 19 wedi atal y gwaith hwn yn rhannol.

Mae [Rhaglen Lywodraethu 2021-2026](#) Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ystyried diwygio strwythur y diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol. Gan adeiladu ar yr ymrwymiad hwn roedd y [Cytundeb Cydweithio](#) rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn datgan:

“Er mwyn lleihau anghydraddoldeb addysgol a chefnogi lles y dysgwyr a'r staff, byddwn yn ystyried diwygio dyddiadau tymhorau ysgol mewn ffordd radical er mwyn iddynt gyd-fynd yn well â phatrymau bywyd teuluol a chyflogaeth.”

[Ar 4 Mehefin 2024](#), dywedodd Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, na fyddai dim newidiadau i patrwm y flwyddyn ysgol yn cael eu rhoi ar waith o fewn cyfnod y Senedd hon.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y ddogfen '[Effaith newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendarau ysgol amgen: adolygu tystiolaeth a chrynodeb o brif ganfyddiadau ac argymhellion Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth](#)'. Roedd yr adolygiad yn edrych ar ddeunydd darllen a oedd yn cynnwys

astudiaethau o Gymru, o'r DU yn ehangach, ac o UDA. Canfu fod tystiolaeth 'gymysg ac amhendant' yn gysylltiedig â newid y flwyddyn ysgol. Roedd yr adolygiad yn argymhell sicrhau bod unrhyw raglen arfaethedig i newid y calendr ysgol yn cynnwys proses drylwyr ac o ansawdd o gasglu a gwerthuso tystiolaeth o'r cychwyn cyntaf.

Wedi'i gynnwys yng nghanfyddiadau rhagor o waith ymchwil, sef Diwygio'r flwyddyn ysgol: canfyddiad a phrofiadau o'r calendr ysgol presennol (3 Hydref 2023) roedd:

- Mae'r gwyliau o 6 wythnos yn achosi colled dysgu i bob dysgwr ond chydig iawn o effaith barhaol sydd i'r golled hon gydag adferiad yn digwydd yn fuan ar ôl cychwyn tymor yr Hydref.
- Ar ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mae'r calendr ysgol presennol yn effeithio fwyaf. Grŵp arall yr effeithir yn fwy arnynt o safbwynt cynnydd a chyrhaeddiad yw'r rheini sydd o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd.
- Mae anghysondeb mewn hyd tymhorau yn cynyddu lefelau blinder ar bwyntiau penodol o'r flwyddyn ac yn effeithio ar agwedd at ddysgu ar bwyntiau allweddol fel diwedd tymor yr hydref a thymor yr haf. Ystyrir nad yw'r seibiannau byrraf yn cael fawr o effaith ar ddatrys materion blinder a llesiant, ac ystyrir bod pythefnos yn fwy buddiol nag un wythnos. Mae cynnydd mewn ymddygiad aflonyddgar wrth i lefelau blinder gynyddu.

2.1. Ymgynghoriad

Parhaodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y cynigion o fis Tachwedd 2023 hyd fis Chwefror 2024. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn cefnogi dysgwyr a'r gweithlu addysg o ran mynd i'r afael ag anfantais, yn cefnogi dysgu a llesiant, ac yn adlewyrchu sut mae pobl yn byw ac yn gweithio nawr. Roedd y canlynol ymhlith y cynigion:

- Tymhorau o hyd mwy cyfartal;
- Ailddosbarthu cyfnodau gwyliau; a
- Lleihau hyd gwyliau haf.

Ni fyddai dim newid i nifer cyffredinol y diwrnodau addysgu nac i nifer cyffredinol y gwyliau ysgol, ac ni fyddai'r egwyl haf yn cael ei leihau i lai na phedair wythnos. Daeth rhagor na 16,000 o ymatebion i law o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

2.2. Y Cynigion

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi tri chynnig craidd:

- Opsiwn 1: Cadw'r sefyllfa bresennol
- Opsiwn 2: Egwyl o bump wythnos dros yr haf, egwyl o bythefnos yn yr hydref, a'r hyblygrwydd i ddatgysylltu gwyliau'r gwanwyn a gŵyl gyhoeddus y Pasg;
- Opsiwn 3: Gan ddatblygu Opsiwn 2, sef pedair wythnos o egwyl haf; egwyl o bythefnos ym mis Mai, a threfnu i ganlyniadau UG, Safon Uwch a TGAU gael eu cyhoeddi ar yr un diwrnod.

Wrth gyhoeddi na fyddai'r diwygiadau'n cael eu rhoi ar waith yn ystod cyfnod y Senedd hon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

Dros weddill tymor y Senedd hon, rwy'n bwriadu parhau i archwilio'r cynigion a nodwyd yn ein hail opsiwn yn yr ymgynghoriad: pum wythnos o haf, toriad o bythefnos yn yr hydref, a'r hyblygrwydd i ddatgysylltu toriad diwedd tymor y Pasg o ŵyl y Pasg. Fodd bynnag, mae diwygio pethau'n iawn yn golygu sicrhau ei fod wedi'i gynllunio'n iawn a'i fod yn cael yr amser a'r lle i lwyddo. Rwyf am gymryd yr amser hwn i drafod gyda phlant a phobl ifanc, rhieni, y gweithlu a phartneriaid eraill yr hyn y gallai'r newidiadau hyn ei olygu a phryd fyddai'r amser iawn ar eu cyfer nhw. Ni fydd unrhyw benderfyniadau terfynol cael eu gwneud yn nhymor y Senedd hon, gan fy mod i'n teimlo'n gryf bod angen i ni barhau i ganolbwyntio ar y rhaglen uchelgeisiol o ddiwygiadau sy'n gennym eisoes yn ystod y cyfnod hwn, ac rwy'n ymwybodol iawn ein bod ni'n gofyn llawer gan athrawon ac ysgolion.

3. Ymateb gan y sector twristiaeth a'r undebau amaethyddiaeth ac addysg

Mewn [llythyr agored ar y cyd](#) (fis Ionawr 2024) at Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd, galwodd undebau athrawon a staff ysgolion, undebau ffermio a chyrrff twristiaeth ar Lywodraeth Cymru i dynnu ei chynigion i ddiwygio'r flwyddyn ysgol yn ôl. Roeddent yn dadlau:

- Nid yw'r rhesymau addysgol y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi dros y diwygiadau wedi'u cadarnhau gan ymchwil.

- Bydd y newid arfaethedig i wyliau'r haf yn arwain at rai atyniadau'n cau a swyddi'n cael eu colli. Mae llawer o atyniadau yn cymryd dros 45% o'u hincwm blynyddol yn ystod gwyliau'r haf presennol.
- Mae'r diwydiant twristiaeth yn cyflogi llawer o bobl ifanc yn ystod cyfnod gwyliau'r haf.
- Mae llawer o fusnesau ffermio sydd wedi arallgyfeirio i'r sector twristiaeth yn elwa o dymor brig o chwe wythnos lle mae'r tywydd yn llawer mwy ffafriol.

Goblygiadau'r cynnig y gallai gwyliau'r haf gael ei gwtogi o wythnos, yw y byddai ysgolion ar agor yn ystod wythnos Sioe Frenhinol Cymru. Dywedodd Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru ei bod yn 'gwrthwynebu'n gryf' y cynigion a fyddai'n arwain at fod ysgolion ar agor yn ystod wythnos y Sioe. Mae'r Sioe yn [amcangyfrif](#) y byddai ar ei cholled o hyd at £1 miliwn o ran incwm.

4. Gwledydd eraill

Mae adroddiad yr Asiantaeth Weithredol Addysg a Diwylliant Ewropeaidd, sef '[Organisation of School Time in Europe](#)', yn rhoi gwybodaeth ryngwladol am ddyddiadau dechrau a gorffen a hyd gwyliau ysgol. Ar draws Ewrop, mae pum prif gyfnod o wyliau ysgol, sef: yr hydref; y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd; y gaeaf/carnifal; y gwanwyn/Pasg; a'r haf. Yn gyffredinol, mae'r flwyddyn ysgol yn gorffen rhwng diwedd mis Mai ac ail hanner mis Gorffennaf. Mae hyd gwyliau'r haf yn amrywio'n sylweddol rhwng gwledydd: o 6 wythnos mewn rhai ardaloedd yn yr Almaen i 11-14 wythnos yn yr Eidal a Phortiwgal.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref: Petition P-06-1436
Ein cyf/Our ref: LN/05417/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mai 2024, fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau, ynghylch Deiseb P-06-1436 Dileu cynlluniau i newid strwythur y flwyddyn ysgol.

Rwy'n cydnabod y ddeiseb ac rwy'n ddiolchgar i chi am ei rhannu. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi trafod gydag undebau'r gweithlu addysg, y gweithlu ysgolion yn fwy cyffredinol, plant a phobl ifanc, teuluoedd a chynrychiolwyr o sectorau eraill i ddatblygu'r cynigion a gyflwynwyd fel rhan o'r Ymgynghoriad diweddar ar y Flwyddyn Ysgol.

Daeth yr ymgynghoriad hwnnw i ben ar 12 Chwefror a rhoddodd gyfle i unigolion a grwpiau ledled Cymru roi eu mewnbwn ar y cynigion.

Rwy'n nodi'r pwyntiau a amlinellir yn nhestun y ddeiseb ac yn y wybodaeth ychwanegol.

Fel y dywedais yn fy Natganiad Llafar ar 4 Mehefin, rwyf wedi asesu'n llawn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw - roedd dros 16,000 ohonynt - gan gynnwys ymatebion plant a phobl ifanc, teuluoedd, y rhai sy'n gweithio o fewn y system addysg a rhanddeiliaid eraill. Roedd yr ymatebion hynny'n gymysg iawn ac yn amwys. Mae hyn yn gydnaws â'r drafodaeth ehangach ar y mater a'r sylfaen dystiolaeth.

O'r herwydd, cadarnheais na fyddai penderfyniadau ar weithredu unrhyw newid i'r flwyddyn ysgol yn digwydd yn ystod tymor y Senedd hon. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i ddiwygiadau eraill, megis y Cwricwlwm i Gymru newydd a'r diwygiadau o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol, gael eu gweithredu a'u cyflwyno'n llawn cyn ystyried unrhyw newidiadau pellach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 56
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Mae dolenni at ganfyddiadau'r ymgynghoriad i'w gweld yma:

<https://www.llyw.cymru/strwythur-y-flwyddyn-ysgol>

<https://www.gov.wales/structure-school-year>

Rwy'n croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn parhau i weithio ar y materion pwysig hyn.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lynne Neagle'.

Lynne Neagle AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg



Jack Sargent MS
Chair
Petitions Committee
Senedd Cymru
By email

3rd July 2024

Dear Chair,

We note the letter from the Cabinet Secretary, dated 19th June '24, with regard to our petition "Withdraw plans to change the structure of the school year".

We further note and welcome what the Cabinet Secretary said in the Senedd, during the debate on this critical issue, on the 4th June '24:

*"This is not about reactionary forces. This is about me making a decision based on a 16,000-plus consultation and what I am hearing on the ground about a school system that is struggling and overwhelmed with reform, that is finding it challenging to raise attainment, and which is also struggling for funding. So, that is what I am prioritising, and I make no apologies for that decision."*¹

As education unions, we are pleased that the Cabinet Secretary has listened to our members' concerns, and hope this can be an opportunity to reset discussions with the education unions with regard to the school year.

¹ <https://record.senedd.wales/Plenary/13945#A88371>

We look forward to hearing from the Cabinet Secretary to this end.

Yours sincerely,

Eithne Hughes, ASCL Cymru

Nicola Savage, GMB

Neil Butler, NASUWT Cymru

Laura Doel, NAHT Cymru

Nicola Fitzpatrick, NEU Cymru

Ioan Rhys-Jones, UCAC

Rosie Lewis, Unison Cymru

Cc: Lynne Neagle MS, Cabinet Secretary for Education

Prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion uwchradd

Y Pwyllgor Deisebau | 8 Gorffennaf 2024
Petitions Committee | 8 July 2024

Cyfeirnod: SR24/8813

Rhif y ddeiseb: P-05-1442

Teitl y ddeiseb: Ehangu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion uwchradd

Geiriad y ddeiseb: Rydym yn galw am y canlynol:

Gweithredu prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion uwchradd, ni waeth beth fo'u gofynion dietegol o ran alergeddau, crefydd neu resymau personol.

Sicrhau, hyd y gellir, fod y prydau ysgol am ddim yn dod o ffynonellau moesegol a chynaliadwy, a bod hawliau gweithwyr yn y gadwyn gyflenwi yn cael eu diogelu.

Annog pob ysgol i gael cegin o ansawdd dda ar y safle sy'n gwneud bwyd ffres pryd bynnag y bo modd a, phan na fo modd, fod cyflenwyr yn defnyddio cynnyrch ffres a lleol.

Fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn 2021, cyflwynwyd prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd. Mae gwneud hyn wedi bwydo degau o filoedd o blant ifanc y mae llawer ohonynt mewn tlodi, ac mae wedi lleihau yn aruthrol y stigma ynghylch derbyn y prydau bwyd hyn. Rhaid i fwydo plant fod yn flaenoriaeth wleidyddol bob amser.

Mae'n bryd i hyn fynd yn ei flaen. Yn ôl y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, mae 19% - sef tua 25,000 - o blant mewn tlodi yn dal i fod heb fynediad at brydau ysgol am ddim oherwydd y profion modd mewn ysgolion uwchradd.



Mae risg y byddan nhw'n mynd heb fwyd, ac mae Ymddiriedolaeth Trussell yn amcangyfrif bod 20% o oedolion yng Nghymru yn profi ansicrwydd bwyd.

Yn ogystal, credwn fod modd, a bod rhaid, i brydau ysgol am ddim i holl blant gael eu defnyddio i addysgu, gan gynnwys addysgu economeg y cartref yng Nghymru a hyrwyddo gwerth am arian a diet iach yn enwedig, ynghyd â ffynonellau lleol, moesegol a chynaliadwy, fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

1. Y cefndir

1.1. Hawl i gael prydau ysgol am ddim

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ddysgwyr cymwys sy'n mynd i ysgol a gynhelir ar sail amser llawn. Mae disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw eu rhiant (neu'r dysgwr yn ei rinwedd ei hun) yn cael budd-daliadau penodol:

- Chymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Elfen wedi'i gwarantu o Gredyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant (cyn belled nad yw rhieni hefyd yn cael Credyd Treth Gwaith a bod eu hincwm blynyddol yn £16,190 neu lai cyn treth)
- Credyd Treth Gwaith dilynol (a delir am 4 wythnos ar ôl i rieni beidio â bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith)
- Credyd Cynhwysol (cyn belled â bod incwm net blynyddol y cartref yn llai na £7,400, heb gynnwys budd-daliadau).

Ym mis Ionawr 2023, roedd 44,530 o ddisgyblion ysgol uwchradd (25.5 y cant) yn cael prydau ysgol am ddim (gan gynnwys y rhai nad oeddent bellach yn gymwys ac eithrio drwy dderbyn amddiffyniad wrth bontio). Mae'r ffigur hwn yn ymwneud â'r dysgwyr hynny sy'n gymwys ac sydd wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim. Mae'n rhaid i deuluoedd wneud cais am brydau ysgol am ddim a gallai fod dysgwyr y gallai eu teuluoedd fod yn gymwys ond nad ydynt wedi manteisio ar eu hawl.

1.2. Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi

Yn 2017, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y [Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi](#) gyda'r nod o sicrhau bod gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi yn y sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesebol ac yn unol â chyfreithiau'r DU, yr UE a chyfreithiau rhyngwladol. Mae'n ymdrin â materion cyflogaeth, gan gynnwys caethwasiaeth fodern a cham-drin hawliau dynol, cosbrestu, a hunangyflogaeth ffug (hynny yw, gweithredu fel cyflogai ond heb gontract cyflogaeth). Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymrwymo i'r Cod.

2. Camau gan Lywodraeth Cymru

O fis Medi 2022, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, dechreuodd Llywodraeth Cymru ariannu awdurdodau lleol i gyflwyno eu cynnig o [brydau ysgol gynradd am ddim i bawb](#), gan ddechrau gyda'r dysgwyr mewn dosbarthiadau Derbyn. Bydd pob plentyn ysgol gynradd a mwy na 6,000 o ddisgyblion oedran meithrin sy'n mynd i ysgol a gynhelir yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim erbyn 2024. Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi bod 20 o'r 22 o awdurdodau lleol wedi cwblhau'r broses o gyflwyno'r rhaglen ac y bydd y ddau arall (Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe) yn ei gwblhau drwy ymestyn i Flwyddyn 6 o fis Medi eleni.

Mae [Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £200 miliwn o refeniw](#) dros dair blynedd (£40m ar gyfer 2022-23, £70m ar gyfer 2023-24 a £90m yn 2024-25) i gefnogi'r cynllun. Mae hefyd wedi dyrannu £60 miliwn o gyfalaf dros ddwy flynedd (£25m yn 2021-22 a £35m yn 2022-23) i gefnogi gwelliannau i gyfleusterau ceginau ysgolion, gan gynnwys prynu offer a diweddarau systemau digidol. [Roedd Plaid Cymru am ymestyn](#) prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol uwchradd, er nad oedd hyn byth yn rhan o'r Cytundeb Cydweithredu fel yr eglurodd yr Arweinydd ar y pryd i'r [Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr 2022](#). Fodd bynnag, fe'i nodwyd yn [y papur ar y cyd ar gyllideb 2024-25](#) fel maes blaenoriaeth i Blaid Cymru pe bai unrhyw gyllid pellach ar gael gan Lywodraeth y DU.

3. Camau gweithredu'r Senedd

Rhwng mis Medi 2021 a mis Ionawr 2022, ystyriodd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb [P-06-1178 Prydau ysgol am ddim i bob disgybl yng Nghymru](#). Gwnaeth y Pwyllgor longyfarch y deisebydd ar ganlyniad llwyddiannus gan fod Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Phlaid Cymru wedi ymrwymo i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob plentyn ysgol gynradd. Cydnabu'r Pwyllgor mai galwad gyffredinol y deisebydd oedd i bob disgybl ysgol gael prydau ysgol am ddim, ac awgrymodd fod hwn yn gam sylweddol tuag at gyflawni'r uchelgais hwnnw. Cafodd y ddeiseb ei chau, felly.

4. Rhagor o wybodaeth

Cyflwynwyd hawl cyffredinol i brydau ysgol am ddim ledled yr Alban yn 2015, ar gyfer pob disgybl yng ngrwpiau blwyddyn Cynradd 1 i Gynradd 3. Estynnwyd hyn i bob disgybl yn P4 ym mis Awst 2021, ac yna i bob disgybl yn P5 ym mis Ionawr 2022. Mae'r cynllun yn cynnwys dysgwyr 5-9 oed. Yn Lloegr, mae prydau ysgol am ddim yn cael eu darparu ar hyn o bryd i bob plentyn yn y dosbarth derbyn hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn Dau (4-7 oed).

Gan fod prydau ysgol am ddim i bawb wedi'u cyfyngu i blant iau, ychydig o lenyddiaeth sydd ar gael ar ddichonoldeb a'r dull gweithredu ar gyfer cyflwyno'r polisi i fyfyrwyr hŷn. Cynhaliwyd [prosiect ymchwil ar raddfa fach](#) mewn dwy ysgol uwchradd ym Mwrdeistref Hammersmith a Fulham yn Llundain yn 2020 i ystyried y manteision posibl i ddisgyblion a'u haelwydydd, a rhwystrau posibl. Nid oedd yn edrych ar effeithiolrwydd na chost effeithiolrwydd prydau ysgol am ddim i bawb.

Canfu'r ymchwil fod prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion uwchradd yn ymyriad ymarferol a derbyniol, a'i fod yn cynyddu mynediad at brydau iach, ac yn gwella diogeledd bwyd a maeth. Ymhlith y rhwystrau posibl rhag gweithredu oedd seilwaith cyfyngedig o ran ceginau a lleoedd i fwyta mewn ysgolion, ansawdd a dewis prydau bwyd, a mwy o amser ciwio.

[Cyhoeddodd Sefydliad Bevan ymchwil yn 2021](#) ynghylch dichonoldeb a manteision ymestyn cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1442
Ein cyf/Our ref LN/05451/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

deisebau@senedd.cymru

26 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Deiseb P-06-1442 Ehangu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion uwchradd.

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mai 2024 ynghylch deiseb Cangen Caerdydd a'r Cylch o Unite Community yn galw am Brydau Ysgol am Ddim i holl blant ysgolion uwchradd.

Rwy'n falch iawn bod ugain awdurdod lleol bellach wedi cyflwyno'r cynllun Prydau Ysgol Am Ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) i bob dysgwr o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6, gan gynnwys y rhai sy'n darparu prydau bwyd i ddysgwyr meithrin llawn amser. Mae'r ddau awdurdod lleol sy'n weddill, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr yn bwriadu cyflawni hyn i Flwyddyn 6 o fis Medi 2024 ymlaen.

Fel llywodraeth, rydym yn defnyddio pob ysgogiad sydd ar gael i ni i gefnogi'r teuluoedd mwyaf anghenus. Ar hyn o bryd, rydym ni a'n partneriaid yn canolbwyntio ar ymestyn yr hawl drwy ddarparu'r cynllun UPFSM. Wrth gyflawni'r ymrwymiad hwn, rydym yn dysgu gwersi gwerthfawr, gan gynnwys materion fel amrywiol ofynion diet arbennig, a pha gymorth ac arweiniad pellach y gallai fod eu hangen i helpu ysgolion i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn llawn. Bydd hyn yn llywio unrhyw newidiadau pellach i'n cynnig prydau ysgol am ddim, pe bai cyllideb ar gael yn y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, yn anffodus, mae ein cyllideb bresennol yn ein cyfyngu oherwydd nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu setliad ariannu digonol i Gymru. Yn gyffredinol, mae ein cyllideb werth £700m yn llai mewn termau real na phan gafodd ei gosod yn 2021 a rhaid i ni wneud rhai dewisiadau anodd iawn i leddfu'r pwysau eithriadol ar y gyllideb. Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i flaenoriaethu cefnogaeth i'r rhai sydd ei hangen fwyaf. Yn ystod 2022-23 a 2023-24, rydym wedi dyrannu gwerth dros £3.3biliwn o gymorth drwy raglenni sy'n helpu i ddiogelu aelwydydd difreintiedig a rhoi arian yn ôl ym mhocedi teuluoedd.

Yn ogystal, bydd ein Strategaeth Tlodi Plant yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer y tymor hwy a bydd yn amlinellu sut y byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth a gyda'n partneriaid i sicrhau bod y dulliau sydd ar gael i ni yn cael eu defnyddio i'r eithaf i leihau tlodi plant ac i liniaru effeithiau gwaethaf tlodi plant.

Rydym yn parhau i annog pob teulu a phob unigolyn yng Nghymru i hawlio'r hyn y mae ganddynt hawl iddo, yn enwedig wrth i gostau byw barhau i godi. Mae ein hymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata yn parhau i annog teuluoedd i fanteisio ar brydau ysgol am ddim (eFSM), gan annog rhieni i wirio eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r Grant Hanfodion Ysgol. Mae'r ymgyrch hefyd yn hyrwyddo ac yn annog teuluoedd i fanteisio ar y cynnig UPFSM, sy'n gynllun grant seiliedig ar y galw.

Mae cyflwyno ein hymrwymiad UPFSM ar yr un pryd â'n cwricwlwm newydd yn rhoi cyfle cyffrous i ni newid ein diwylliant bwyd ac ailadrodd pwysigrwydd cefnogi a hyrwyddo caffael bwyd lleol, cynaliadwy ac iach.

O ran gwaith teg, mae'r awdurdodau lleol yng Nghymru i gyd wedi ymrwymo i'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2017, ac wrth wneud hynny maent wedi ymrwymo i fynd i'r afael â risgiau caethwasiaeth a chamfanteisio mewn cadwyni cyflenwi.

Cafodd y darn cyntaf o ddeddfwriaeth sylfaenol ar gaffael cyhoeddus ei basio yn y Senedd y llynedd. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cynnwys dyletswyddau ar gaffael cyfrifol yn gymdeithasol. Pan ddaw'r dyletswyddau hyn i rym, bydd gofyn i awdurdodau lleol gasglu gwybodaeth ac adrodd yn flynyddol ar sut maent yn cyflawni canlyniadau llesiant drwy gaffael. Bydd hyn yn cynnwys ymgorffori egwyddorion gwaith teg a chyfrifoldeb byd-eang mewn prosesau caffael a rheoli contractau.


I ddysgwyr, mae'r Cwricwlwm newydd eisoes yn cynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig gorfodol ym maes y Dyniaethau gyda chyfeiriadau penodol at gynaliadwyedd a'r amgylchedd, er mwyn sicrhau trafodaeth ynghylch heriau ein heffaith ar y byd naturiol ar draws y cwricwlwm.

Caiff dysgwyr eu hannog i ddeall eu heffaith eu hunain ar y byd naturiol. Mae hyn yn grymuso ysgolion i ystyried cynhyrchu a bwyta bwyd ar raddfa leol a byd-eang i ddeall achosion, canlyniadau ac arwyddocâd eu gweithredoedd gan ganiatáu i ddysgwyr drafod cwestiynau am gynaliadwyedd a ffynonellau bwyd.

Ymhellach, mae'r rhaglen Eco-Ysgolion yng Nghymru sy'n cael ei redeg gan Cadwch Gymru'n Daclus yn gweithredu mewn dros 90% o ysgolion, a'i nod yw helpu plant a phobl ifanc i ymgysylltu'n uniongyrchol â'u hamgylchedd, dysgu am newid yn yr hinsawdd a gwerth ein hadnoddau naturiol, a datblygu ymddygiad cynaliadwy. Mae llawer o ysgolion yn ymgysylltu â phrosiectau tyfu bwyd fel rhan o daith Eco-ysgolion.

Ac yn olaf, mae Pennod 1 o [Bwyta'n Iach mewn Ysgolion a gynhelir: canllawiau statudol](#) yn canolbwyntio ar rôl corff llywodraethu'r ysgol a'r awdurdod lleol wrth hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, o dan Fesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru). Byddwn yn adolygu'r canllawiau hyn cyn bo hir gan sicrhau bod y dystiolaeth ddiweddaraf yn cael ei hystyried, ac rydym yn annog pob partner i ymgysylltu â'r broses maes o law.

Yn gywir



Lynne Neagle AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Dear Petitions Committee,

You don't have to look very far to see the number of children in poverty in the UK.¹ Nor the number of people in food poverty in Wales and its brutal consequences.²

The Welsh Government's budgetary constraints will always be a factor in its responses to justified demands to address child / household poverty. But that shouldn't be used as an argument against making commitments - which are about choices and priorities. Actually, we've learned that the roll out of free school meals in primary schools has had the problems of capacity, caused by previous directions in sourcing, procurement and standards, kitchens, and eating spaces, where the Welsh Government must commit to provide a lead to, and support to, councils for long term planning of school meals provision.³ Meanwhile, the Welsh Government has consistently lacked ambition and political commitment, reversing its decision to provide FSM (Free School Meals) in school holidays, and forcing local authorities to pick up the bill without breaking its moral and legal duties under the United Nations Convention on the Rights of the Child.⁴ This decision by the Welsh Government was later ruled illegal by the High Court and continues to this day to be a moral scourge that must be rectified immediately.^{5 6} We want to know if the Cabinet Secretary has any plans to reverse this decision.

The Cabinet Secretary's reply not only contains no commitments but says nothing whatsoever about bringing pressure to bear on the next UK government regarding regional funding and providing the publicly funded services - UFSM (Universal Free School Meals) and others - that are so desperately needed. The Welsh Government simply cannot continue to use the Barnett formula as an excuse while it holds tax-raising powers, if it will not directly address its plans to lobby the UK government into reforming it, and what the Welsh Government's preferred system would be instead. The need is on us right now, not at some distant future point where a benevolent UK

1

<https://cpag.org.uk/news/child-poverty-reaches-record-high-failure-tackle-it-will-be-betrayal-britains-children>

2

<https://www.trusselltrust.org/wp-content/uploads/sites/2/2023/06/2023-Hunger-in-Wales-report.pdf>

3

<https://www.voice.wales/cardiff-council-must-roll-out-free-school-meals-faster-say-anti-poverty-campaigners/>

⁴ <https://www.walesonline.co.uk/news/education/second-welsh-council-agrees-fund-27344035>

⁵ <https://www.bevanfoundation.org/views/welsh-government-free-school-meals/>

6

<https://childrenslegalcentre.wales/the-free-school-meals-challenge-in-wales-a-case-for-optimism/>

government will kindly bestow upon us a slight increase in funding⁷, devolution requires decisions about Wales to be made in Wales and our government to be held accountable. If we limit ourselves to what arbitrary fiscal rules allow, then we accept that children will go hungry. The wealth is there but in the wrong hands, and new tax-raising schemes such as the council tax surcharge for empty and second homes shows the innovation required to find those funds, it may be a challenge but that does not mean we can reject our collective responsibility. While these are wider issues for the Welsh Government, we call for consideration of ways for Wales to directly fund extension of UFSM to secondary schools instead of waiting for money to arrive via Barnett consequentials.

While we do acknowledge that funding constraints have hampered the Welsh Government's ability to provide all the resources needed here, we believe that it would be worthwhile for there to be a bolder and clearer statement of Welsh Government's vision and future intentions regarding policies aimed at eradicating child poverty, in particular the universal provision of free school meals at all levels of education. One with secure targets and scrutiny mechanisms, unlike the current version of the document.⁸ This document must also include the extension of Universal Free School Meals at its heart, particularly in reducing food poverty. In essence, the Welsh Government continues to maintain its position that the extension of UFSM is to occur once it has the budget, but is simply not attempting to find or fight for that budget at this time. Simultaneously, with every year of delay Wales' secondary school children are missing out on the immense benefits of universalism in Free School Meals⁹ which the Welsh Government promotes, and approximately 25,000 children in poverty in Wales continue to go without Free School Meals.¹⁰

Furthermore, claiming communication and marketing campaigns to get families to sign up to FSM as a success is disappointing, as this money could be used to get FSM to more hungry children rather than spent on advertising. This highlights the failed prioritisation of resources regarding FSM from the Welsh Government at this time, why does the Cabinet Secretary not agree with this assessment?

7

<https://www.theguardian.com/business/2024/mar/07/ifs-warns-of-labour-and-tory-conspiracy-of-silence-over-future-tax-and-spending-plans>

⁸ <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-68056286>

⁹ <https://cpag.org.uk/news/universalism-multiplier>

¹⁰

<https://cpag.org.uk/sites/default/files/2023-08/Free%20school%20meals-%20third%20of%20kids%20in%20poverty%20miss%20out.pdf>

We do agree that the roll out of the new Curriculum for Wales during the UFSM in primary schools is a great opportunity, and we hope that in order to realise that potential more resources could be provided to schools to encourage embedding local, sustainable, and healthy food. If the Cabinet Secretary could provide examples of collaboration with local authority education departments or work directly with schools by the Welsh Government to provide these resources, we would welcome it, as to see this ambition put into practice requires work at all levels of government.

As the Cabinet Secretary will know we are yet to see the impact of the Social Partnership and Public Procurement Act (Wales) 2023, but the level of control local authorities hold over schools' catering decisions is often limited and especially so under current budget constraints. Not to mention that the provisions held within the act are broad in scope, and more guidance regarding school catering would be welcomed to put pressure on schools to bring catering provision in-house or ethically sourced where possible, and expand capacity through capital funding to prevent the same delays which slowed down the rollout for primary schools such as in Cardiff. It must also be noted that at this time carbon reporting in schools only considers cost as a way of measuring carbon emissions through Tier 1 spend methods rather than wider mitigating factors, this incentivises local authorities and schools to focus on a cost-only approach when choosing catering providers.¹¹

Finally, we would like to highlight the continuing problem of young people reporting continuing hunger after receiving a school meal across Wales.¹² We call on the Welsh Government to publish its new consultation on school meals portion sizes as quickly as possible so schools can put larger portions into practice as soon as possible.

We hope the Petitions Committee will work collaboratively with us in the pursuit of our goal to let no child go hungry in Wales, and that the Welsh Government reconsiders its current position on Universal Free School Meals both in secondary schools and school holidays. Let us reignite the debate which is as crucial now as ever, with a cost-of-living crisis, mental health crisis, and climate crisis holding the children of Wales back.

Yours faithfully,
Ewan Goodjohn,
Chair, Unite Community Cardiff and Area

¹¹

<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2024-06/welsh-public-sector-net-zero-carbon-reporting-guide.pdf>

¹²

<https://www.itv.com/news/wales/2024-04-29/it-doesnt-fill-you-up-children-say-they-are-going-hungry-after-school-meals>

Deisebydd: Owen Shiers

Dyddiad dechrau: 23/11/23

Dyddiad gorffen: 23/05/24

Gweithred

Ailsefydlu cyllid craidd ar gyfer TRAC Cymru (Traddodiadau Cerdd Cymru)

Cefndir:

Ffurfiwyd TRAC i hyrwyddo a thynnu sylw at draddodiadau cerddoriaeth werin a dawns Cymru, er mwyn iddynt gael eu cefnogi ar yr un lefel â mathau eraill o gerddoriaeth glasurol a chyfoes, a genres diwylliannol eraill.

Cymerwyd camau breision yn y degawdau diwethaf i feithrin diwylliant gwerin Cymru, a hyrwyddo Cymru ar lefel ryngwladol. Er gwaethaf hynny, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi penderfynu dileu cyllid craidd TRAC, gan olygu na allant barhau â'u gwaith hanfodol. Dyma fynnu bod y cyllid hwn yn cael ei adfer.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae celfyddydau traddodiadol Cymru yn garreg sylfaen yn hunaniaeth ein cenedl. Mae ein cerddoriaeth, ein cân, ein dawns, a'n straeon llafar yn cario ac yn mynegi ein diwylliant a'n ffordd o fyw nodedig. Dyma draddodiadau a gadwyd yn fyw ers canrifoedd gan werin Cymru, gydag ychydig iawn o gydnybyddiaeth na chefnogaeth gan lywodraeth ganolog.

Sefydlwyd TRAC yn 1997 gan grŵp o gerddorion gwerin a chefnogwyr a oedd yn rhannu cred ym mhwsigrwydd a gwerth ein diwylliant traddodiadol, ymwybyddiaeth o'i berthnasedd parhaus i'r presennol, ac angerdd dros rannu'r hyn sydd gan draddodiadau cerddorol i'w gynnig.

Heb gefnogaeth, mae'r ffurfiau traddodiadol hyn yn colli buddsoddiad a ffocws i ffurfiau clasurol a chyfoes o greu cerddoriaeth, ac maent mewn perygl o berthyn i amgueddfeydd yn hytrach na bod yn draddodiad gwerin byw sy'n llywio ein diwylliant cyfoes a'n hymdeimlad o hunaniaeth.

Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud yn y degawdau diwethaf i unioni'r fantol, ond mae cael gwared ar gyllid craidd TRAC yn fygythiad gwirioneddol.



Eich cyf P-06-1443
Ein cyf LG/05304/24

Jack Sargeant MS
Cadeirydd - Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

18 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth ar 23 Mai fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynghylch cyllid ar gyfer Trac Cymru.

O dan yr egwyddor ariannu hyd braich, mae'r Adolygiad Buddsoddi yn fater ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymyrryd yn ei benderfyniadau ariannu.

Fel ymateb uniongyrchol i'r hyn a ddysgwyd a'r penderfyniadau a wnaed fel rhan o broses yr Adolygiad Buddsoddi, mae CCC wedi ymrwmo i ymgymryd ag ymyriadau strategol ar draws nifer o ddisgyblaethau artistig eleni, i asesu'r ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer pob disgyblaeth. Un o'r ymyriadau strategol a gyhoeddwyd oedd adolygiad o gerddoriaeth draddodiadol yng Nghymru, sydd ar gam cynnar. Mae CCC wedi hysbysebu'n ddiweddar am reolwr prosiect a chomisiynydd i arwain yr ymyrraeth hon. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 24 Mehefin.

Cymerodd CCC nifer o gamau drwy gydol cyfnodau datblygu, ymgeisio ac asesu'r Adolygiad Buddsoddi i sicrhau bod y broses yn deg ac yn briodol. Cynhaliodd CCC broses ymgynghori helaeth ar y dull newydd arfaethedig o ymdrin â'r Adolygiad Buddsoddi, y broses ymgeisio a'r broses apelio. Ceisiodd CCC gael ystod mor eang o sylwadau â phosibl gyda sesiynau ymgynghori wedi'u cynnal ar Zoom a chyfleoedd i'r sector ymateb drwy arolwg ar-lein ac e-bost. Drwy gydol y cyfnod hwn, aeth CCC ati i hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy amrywiaeth o rwydweithiau, y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau a phostiadau uniongyrchol a daeth 81 o ymatebion i law.

Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, defnyddiodd CCC yr un broses ymgeisio ac asesu i'r holl ymgeiswyr, dyluniwyd y dull a'r cynigion mewn modd a oedd yn darparu ar gyfer sefydliadau o bob maint, adnoddau a phrofiad o Adolygiadau Buddsoddi. Cyhoeddodd CCC Adolygiad Buddsoddi: Ymateb i'r Ymgynghoriad, Adolygiad Buddsoddi 2023: Canllawiau a'r Broses Apelio cyn agor ar gyfer ceisiadau ar 9 Ionawr 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 72
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fe wnaeth CCC hefyd gynnig cefnogaeth yn ystod y cyfnod ymgeisio, gyda'r cyfle i gael sgwrs dywys gyda Swyddog CCC. Er nad oedd y sgysiau hyn yn rhoi unrhyw fanylion pellach y tu hwnt i'r Canllawiau a gyhoeddwyd, roeddent ar gael i gynorthwyo ymgeiswyr ar gwestiynau penodol. Fe wnaeth CCC hefyd gynnal a chadw Cwestiynau Cyffredin i gynorthwyo sefydliadau ymhellach a sicrhau bod gan bob darpar ymgeisydd fynediad at yr un wybodaeth ar yr un pryd.

Cynhaliodd CCC broses asesu gadarn yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd, gan ganolbwyntio ar chwe egwyddor, sef Creadigrwydd; Ehangu Ymgysylltiad; Y Gymraeg; Cyfiawnder Hinsawdd; Meithrin Talent; a Thrawsnewid. Defnyddiodd CCC hefyd bum ffactor cydbwysu i gymryd golwg ehangach. Ar ôl cyhoeddi penderfyniad cyllid dangosol ym mis Medi, agorodd proses apelio annibynnol i sefydliadau a oedd yn aflwyddiannus. Daeth hyn i ben ym mis Rhagfyr 2023. Apeliodd Trac Cymru yn erbyn y penderfyniad ar ei Adolygiad Buddsoddi ond roedd yn aflwyddiannus yn y cam Adolygiad Annibynnol cychwynnol.

Trefnodd CCC i'w ddarparwr gwasanaeth archwilio mewnol wneud ei waith craffu ei hun ar ei gynigion, drwy gyfres o archwiliadau mewnol drwy gydol y prosiect. Archwiliodd y rhain nifer o feysydd, gan gynnwys y Canllawiau ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi, y broses apelio a'r broses asesu, ac roedd manylion amdanynt hefyd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau a gyhoeddwyd. Comisiynwyd yr archwiliadau mewnol hyn i roi barn annibynnol a sicrwydd ychwanegol i'r Cyngor ar gamau allweddol yr Adolygiad Buddsoddi. Fe wnaeth pob archwiliad roi sgôr o Sicrwydd Sylweddol.

Yn unol â Chanllawiau CCC a gyhoeddwyd, cynigiodd CCC Gymorth Pontio i gyn sefydliadau Portffolio Celfyddydau Cymru a oedd yn aflwyddiannus yn eu cais i'r Adolygiad Buddsoddi hwn. Dyfarnwyd £30k mewn cymorth pontio i Trac Cymru gan CCC. Yn ogystal â chymorth ariannol, cynigiodd CCC gyngor ac arbenigedd penodol ychwanegol i helpu'r sefydliadau i addasu i beidio â derbyn eu cyllid blynyddol craidd mwyach.

At hynny, mae sefydliadau a oedd yn aflwyddiannus yn eu cais i Adolygiad Buddsoddi 2023 yn parhau i fod yn gymwys i wneud cais am gyllid i CCC ar gyfer gweithgarwch prosiect penodol drwy ei raglenni Loteri Genedlaethol a gyhoeddir.

Yn ddiweddar, mae Trac Cymru wedi cael trafodaethau ariannu gyda swyddogion Cymru Greadigol ac fe'i cynghorwyd i ystyried gwneud cais am gynllun ariannu cystadleuol sydd ar y gweill i agor yn yr wythnosau nesaf.

Yn gywir,



Lesley Griffiths AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

Newid Treth Trafodiadau Tir ar gyfer y rheini sy'n prynu cartref am y tro cyntaf yng Nghymru, i fod yn unol â Llywodraeth y DU

Y Pwyllgor Deisebau | 8 Gorffennaf 2024
Petitions Committee | 8 July 2024

Cyfeirnod: SR24/8933-1

Rhif y ddeiseb: P-05-1445

Teitl y ddeiseb: Newid Treth Trafodiadau Tir ar gyfer y rheini sy'n prynu cartref am y tro cyntaf yng Nghymru, i fod yn unol â Llywodraeth y DU

Geiriad y ddeiseb: Mae Llywodraeth y DU wedi dileu'r dreth stamp ar gyfer y rheini sy'n prynu eiddo – am y tro cyntaf – o dan £425k yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae angen i Lywodraeth Cymru wneud yr un peth drwy leihau Treth Trafodiadau Tir i'r un gyfradd ar gyfer y rheini sy'n prynu cartref am y tro cyntaf yng Nghymru. Ar hyn o bryd nid oes cyfradd ffafriol ar gyfer y rheini sy'n prynu cartref am y tro cyntaf yng Nghymru. Yn hytrach, dim ond cyfradd unffurf o lai na £225k ydyw am bob cartref a brynir yma. Gyda phrisiau eiddo yn codi'n gyflym, mae'n dod yn fwyfwy anodd dod o hyd i eiddo afon o dan drothwy Llywodraeth Cymru, sef £225k.

Mae prynu cartref cyntaf wedi dod yn fwyfwy anodd i'r rheini sy'n gwneud am y tro cyntaf – gyda'r argyfwng costau byw presennol, a chyfraddau morgais yn codi – ac mae'n cael ei wneud hyd yn oed yn fwy anodd yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, yn sgil peidio ag ychwanegu cymhelliant ychwanegol, fel y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud. Drwy beidio â chael gwared ar y dreth, hon bydd yn ychwanegu at bobl sy'n dal i orfod rhentu yng Nghymru, yn methu â chael mynediad i'r farchnad dai neu hyd yn oed yn prynu y tu allan i Gymru. Pam cyfyngu ar y cymorth a'r dewis i'r rheini sy'n prynu am y tro cyntaf yng Nghymru? Yn fy marn i, dylid cynnig cymaint o help â phosibl i roi pobl ar ben ffordd i brynu cartref.



1. Y cefndir

Ar 1 Ebrill 2018, disodlwyd treth dir y dreth stamp yng Nghymru gan y Dreth Trafodiadau Tir. Llywodraeth Cymru sy'n pennu cyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir, ac Awdurdod Cyllid Cymru sy'n casglu ac yn rheoli'r dreth ar ran Llywodraeth Cymru. Mae nifer o wahaniaethau yn dal i fod rhwng y Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru a threth dir y dreth stamp yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rhaid i bobl sy'n prynu eiddo neu dir yng Nghymru dalu'r Dreth Trafodiadau Tir ar brisiau sy'n uwch na'r trothwy o £225,000. Nid oes unrhyw ryddhad treth i'r rheini sy'n prynu cartref am y tro cyntaf. Y lefel a bennwyd ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir yw 6 y cant ar gyfer eiddo sydd â phris dros £225,000 hyd at £400,000, gan gynnwys y ffigur hwnnw.

Llywodraeth y DU sy'n pennu cyfraddau a bandiau treth dir y dreth stamp ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ar hyn o bryd, mae'r band 0 y cant yn berthnasol i eiddo neu dir sy'n costio hyd at £250,000. I'r rheini sy'n prynu am y tro cyntaf, y trothwy yw £425,000 ac ni fyddant yn talu treth dir y dreth stamp ar eiddo neu dir sy'n costio llai na hynny.

1.1. Prisiau tai yng Nghymru

Mae trothwy'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru yn uwch na phris cyfartalog prynu tŷ yng Nghymru. Yn ôl y Mynegai Prisiau gan Gofrestrfa Tir EF y DU ar gyfer Tai Cymru, ar gyfartaledd, roedd tŷ yn costio £211,000 ym mis Chwefror 2024, ar ôl gostwng 1.2 y cant yn y flwyddyn flaenorol. Ar gyfartaledd, gwnaeth person a oedd yn prynu am y tro cyntaf dal £183,000 am ei gartref cyntaf.

1.2. Ffactorau sy'n effeithio ar y rheini sy'n prynu am y tro cyntaf

Yn ôl Adolygiad Tai y DU ar gyfer 2024, gwelwyd bod straen amlwg iawn ar y farchnad perchnogaeth tai yn y DU gyda thrafodiadau yn gostwng 19 y cant rhwng 2022 a 2023. Yn ôl yr Adolygiad, mae pwysau costau byw a rhenti preifat cynyddol wedi effeithio ar allu'r rheini sy'n prynu am y tro cyntaf i gynilo ar gyfer

blaendal. Er bod prisiau morgesei cyfradd sefydlog wedi gostwng rywfaint, mae'r cyfraddau yn dal i fod llawer yn uwch nag oeddent dair blynedd yn ôl. Bu gostyngiad hirdymor yn nifer y morgesei i bobl sy'n prynu am y tro cyntaf ac mae'r ffactorau hyn yn gwnaed y sefyllfa honno'n waeth. Yn 2023, darparwyd 12,600 o forgeisi i bobl a oedd yn prynu am y tro cyntaf yng Nghymru, o'i gymharu â 17,300 yn 2021 a 30,300 yn 2001.

Mae cyfraddau morgesei wedi bod anwadal ar ddechrau 2024 oherwydd cystadleuaeth rhwng benthycwyr, ynghyd ag ansicrwydd ynghylch toriadau i'r gyfradd sylfaenol. Mae Banc Lloegr wedi awgrymu y gallai fod toriad posibl i'r gyfradd sylfaenol yr haf hwn, a fyddai'n effeithio'n gadarnhaol ar fforddiadwyedd morgesei i'r rheini sy'n prynu am y tro cyntaf.

2. Camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru

Ar ôl cyflwyno'r Dreth Trafodiadau Tir, dywedodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid, fod asesiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi dangos bod rhyddhad ar gyfer y rheini sy'n prynu am y tro cyntaf yn aneffeithiol. Roedd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi dod i'r casgliad y byddai rhyddhad treth argyfer y rheini sy'n prynu am y tro cyntaf yn cynyddu prisiau tai heb arwain at fawr ddim o bryniannau ychwanegol.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o'r Dreth Trafodiadau Tir. Cyhoeddwyd crynodeb o'r adolygiad ym mis Chwefror 2023. Y prif ganfyddiad oedd:

"Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod absenoldeb rhyddhad ar gyfer prynwyr tro cyntaf wedi cael unrhyw effaith sylweddol ar fynediad i berchentaeth yng Nghymru.."

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod mathau eraill o gymorth ar gael ar gyfer y rheini sy'n prynu am y tro cyntaf:

- Cymorth i Brynu: cynllun benthyciad ecwiti a rennir o hyd at 20 y cant o fenthyciad o gymharu a gwerth yr eiddo ar gyfer y rheini sydd â blaendal o 5 y cant, ar gartrefi newydd yn unig.
- Prynu Cartref - Cymru: benthyciad ecwiti o 30 i 50 y cant o werth yr eiddo i bobl sy'n bodloni meini prawf penodol, i'w helpu i brynu eiddo. Nodir ar wefan Llywodraeth Cymru fod 17 o landlordiaid cymdeithasol yn rhan o'r cynllun yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau

bod £8.5 miliwn ar gael dros dair blynedd i gefnogi'r cynllun Prynu Cartref yn Nwyfor.

- Rhanberchnogaeth – Cymru: perchnogaeth rhannol a rhentu rhannol, gyda'r gallu i gynyddu cyfran eich perchnogaeth hyd at berchnogaeth lawn ('staircasing' yn Saesneg). Cynigir y cynllun ar hyn o bryd gan chwe chymdeithas dai yng Nghymru, gyda chyllid Llywodraeth Cymru. Gall landlordiaid cymdeithasol eraill gynnig eu cynlluniau eu hunain, nad ydynt wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.
- Rhentu i Berchnogi – Cymru: ar wefan Llywodraeth Cymru, mae'n dweud, er nad yw Rhentu i Berchnogi yn cael ei ariannu mwyach, mae rhai cartrefi yn dal i gael eu hadeiladu, ac felly gallent fod ar gael i ymgeiswyr newydd. Mae'r wefan yn nodi bod deg cymdeithas dai yn cymryd rhan yng Nghymru.
- Hunanadeiladu Cymru: benthyciadau i ariannu hyd at 100 y cant o gostau adeiladu a 75 y cant o gostau tir ar gyfer cartrefi y mae pobl yn eu hadeiladu eu hunain/cartrefi sy'n cael eu hadeiladu'n bwrpasol. Gweinyddir y cynllun gan Fanc Datblygu Cymru ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1445
Ein cyf/Our ref RE/05076/24

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jack Sargeant MS
Chair - Petitions committee
Senedd Cymru

Mehefin 27 2024

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai, Llywodraeth Leol a Chynllunio ynghylch Deiseb P-06-1445, ('Newid Treth Trafodiadau Tir ar gyfer y rheini sy'n prynu cartref am y tro cyntaf yng Nghymru, i fod yn unol â Llywodraeth y DU'). Gan fod y mater yn ymwneud â'r Dreth Trafodiadau Tir (LTT), mae eich llythyr wedi'i throsglwyddo imi ei ateb.

Ni wnaeth Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ddarparu rhyddhad i brynwyr tro cyntaf pan gafodd ei basio gan y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod absenoldeb rhyddhad LTT o'r fath yn cyd-fynd ag egwyddor Llywodraeth Cymru y dylai trethi Cymru godi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl, a bod trethiant yn decach pan fydd yn flaengar. Felly, dylai'r rhai sy'n prynu'r eiddo drutaf dalu'r gyfran fwyaf o dreth. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y nodau a'r egwyddorion hyn yn gymwys i bob trafodiad eiddo, p'un a ydynt yn bryniannau tro cyntaf neu fel arall, ac na ddylai'r rhai sy'n prynu tai yn ystod isaf i ystod ganol ein marchnad dai dalu unrhyw dreth wrth brynu eu cartrefi.

Pan ddaeth LTT i rym gyntaf ym mis Ebrill 2018 cafodd prif drothwy cyfradd sero cyfraddau preswyl ei bennu yn £180,000. Roedd hyn yn golygu, bryd hynny, nad oedd tua 60% o'r trafodiadau yng Nghymru, gan gynnwys y mwyafrif o brynwyr tro cyntaf, yn talu unrhyw dreth wrth brynu cartref.

Mewn ymateb i gynnydd ym mhrisiau tai wedi hynny, ar 10 Hydref 2022 cymeradwyodd y Senedd reoliadau i godi'r pwynt isaf lle y telir prif gyfraddau preswyl LTT o £180,000 i £225,000. Roedd y newid hwn yn cydnabod codiadau ym mhrisiau tai a oedd wedi digwydd mewn blynyddoedd cyfamserol ac a oedd, unwaith eto, yn golygu na fyddai tua 60% o brynwyr tai yn talu unrhyw dreth, gan gynnwys y mwyafrif o brynwyr tro cyntaf eto.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 78
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfraddau a bandiau LTT yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cael eu pennu yn briodol, gan ystyried siâp marchnad eiddo Cymru. Mae hyn yn golygu bod gwahaniaethau rhwng cyfraddau a bandiau LTT yng Nghymru a'r rhai a bennwyd ar gyfer treth dir y dreth stamp (SDLT) yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer mis Mawrth 2024 yn dangos mai £214,000 yw pris cyfartalog tŷ yng Nghymru ac mai £184,000 yw cost pryniant tro cyntaf ar gyfartaledd.

Mae'r cyfraddau a'r bandiau presennol ar gyfer rhyddhad prynwyr tro cyntaf SDLT yn rhoi rhyddhad llawn rhag SDLT ar gartrefi sy'n costio hyd at £425,000, a gostyngiad yn swm y SDLT sy'n daladwy o £8,750 ar eiddo sy'n costio hyd at £625,000. Mewn cyd-destun Cymreig byddai cartref sy'n costio dros £425,000 yn y 6% uchaf a byddai cartref sy'n costio dros £625,000 yn y 2% uchaf o drafodiadau preswyl, yn ôl cost.

Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn darparu trothwy cyfradd sero uwch yn unol â'r cyfraddau a bandiau SDLT ar gyfer prynwyr tro cyntaf, gan y byddai hynny'n cefnogi rhai pryniannau sydd tipyn yn uwch na phris cyfartalog tŷ, yn hytrach na chefnogi'r rhai sy'n prynu eiddo llai costus, er enghraifft, y rhai sy'n cymryd eu hail gam ar yr ysgol eiddo wrth i'w teuluoedd dyfu.

Diolch ichi am gysylltu â ni i godi ymwybyddiaeth o'r ddeiseb.

Yr eiddoch yn gywir



Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

P-06-1445 Change Land Transaction Tax for First Time Buyers in Wales to be in line with the UK Government – Correspondence from Petitioner to Committee, 2 July 2024

Dear Members of the Petitions Committee,

Thank you for the opportunity to respond to the Welsh Government's position on my petition P-06-1445. I appreciate the detailed explanation provided. Here are my thoughts and further points for consideration.

Thoughts on the Document

While the rationale for maintaining a progressive tax system is clear, the document does not fully address the unique challenges faced by first-time buyers in Wales. Increasing the LTT zero-rate threshold to £225,000 was a positive step, but it does not reflect the rapid rise in property prices in many areas.

Addressing the Issues

The Welsh Government notes that around 60% of transactions, including most first-time buyers, are tax-free under the current threshold. However, many first-time buyers are still priced out of the market, especially in higher-priced areas.

Further Questions

1. **Regional Disparities:** How does the Welsh Government plan to support first-time buyers in regions where property prices exceed £225,000?
2. **Long-Term Strategy:** Is there a strategy to periodically review and adjust LTT thresholds to match market conditions?
3. **Impact Analysis:** Has the impact of the current LTT structure on first-time buyers compared to those in England and Northern Ireland been analysed?
4. **Percentage of First-Time Buyers:** What exact percentage of the transactions under the £225,000 threshold are first-time buyers? You mention most of the 60% are first-time buyers, but knowing the exact figures would help quantify the impact.

Additional Points

1. **Economic Disparities:** Wales is the poorest country in the UK, exacerbating the challenges for first-time buyers. The current LTT structure does not adequately address this disparity.
2. **Local Economic Impact:** Savings on LTT could be used by first-time buyers for home improvements instead, supporting local tradespeople and boosting the local economy.
3. **Challenges in Expensive Areas:** Why should those growing up in more expensive areas be penalised by a generalised tax scheme? This proposed change would provide crucial one-time help, enabling these individuals to remain within their communities.
4. **Comparative Analysis:** The SDLT relief in England and Northern Ireland for first-time buyers purchasing properties up to £425,000 significantly aids their ability to afford homes, even in higher-priced areas. Adopting a similar relief in Wales, adjusted for local market conditions, would provide equitable support for first-time buyers.

5. **Economic and Social Benefits:** Increasing the LTT threshold for first-time buyers could have positive economic and social impacts, such as reducing the rental market pressure, increasing home ownership rates, and enhancing community stability.
6. **Progressive Yet Supportive:** While progressive taxation is important, ensuring that first-time buyers receive adequate support can be balanced within a progressive framework by setting appropriate limits that reflect the realities of the Welsh property market.

Conclusion

While I understand the principles behind the current LTT, the unique challenges faced by first-time buyers in Wales necessitate a review. Aligning LTT relief with SDLT relief in England and Northern Ireland, adjusted for Welsh market conditions, would provide significant support to first-time buyers and have positive economic and social impacts.

Thank you for considering my views. I look forward to the upcoming debate and hope for a constructive discussion that leads to meaningful support for first-time buyers in Wales.

Sincerely,

Taylor Reynish

Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Y Pwyllgor Deisebau | 8 Gorffennaf 2024
Petitions Committee | 8 July 2024

Cyfeirnod: SR24/8973-1

Rhif y Ddeiseb: P-05-1447

Teitl y ddeiseb: Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Geiriad y ddeiseb: Mae'r gymuned leol ar ddeall bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cau'r Ganolfan Ymwelwyr yn Ynyslas ddiwedd y flwyddyn hon. Mae hyn yn digwydd heb unrhyw ymgynghori, dim darpariaeth arall ar gyfer amddiffyn amgen y warchodfa natur, a cholli swyddi lleol.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad a ddylai fod yn gwarchod ein bywyd gwylt a'n cymunedau, yn hytrach na'u dinistrio.

Mae'r ganolfan ymwelwyr yn Ynyslas yn hollbwysig o ran rheoli'r 400,000 o ymwelwyr y flwyddyn sy'n defnyddio'r safle. Mae bywyd gwylt a chynefinoedd y warchodfa natur yn fregus, ac mae angen eu hamddiffyn rhag y nifer fawr yma o ymwelwyr, cerbydau a chŵn, os ydym am osgoi colli rhagor o fioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae presenoldeb staff Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol y flwyddyn yn y warchodfa yn golygu bod yna rwystr naturiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol (cynnau tanau, tipio anghyfreithlon, mynediad i gerbydau) ac yr aed i'r afael yn gyflym ac yn effeithlon gydag unrhyw achosion o'r fath.

Mae'r ganolfan yn darparu gwybodaeth ac addysg i bob ymwelydd, er mwyn iddyn nhw ddeall pam fod y lle yn arbennig, a pha effaith y mae eu gweithredoedd yn ei gael arno. At hynny, mae'n fan cyswllt cymdeithasol i'r



gymuned leol, ac yn fan lle mae byd natur yn hygyrch i'r rheini sydd â symudedd cyfyngedig.

Mae rheolaeth effeithiol ar ymwelwyr yn Ynyslas yn hanfodol er mwyn amddiffyn y Warchodfa Natur a'i bywyd gwyllt.

1. Y cefndir

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n rhedeg canolfan ymwelwyr Ynyslas, yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi ger y Borth, Ceredigion. Mae'r ganolfan ymwelwyr yn cynnwys arddangosfa sy'n rhoi gwybodaeth i ymwelwyr am y warchodfa, toiledau, caffi a siop.

Roedd adroddiadau ym mis Rhagfyr 2023 fod CNC yn ystyried cau ei ganolfannau ymwelwyr yn Ynyslas, Bwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin. Dywedodd un o swyddogion CNC wrth y Cambrian News:

...we are having to look across all of our remit and critically review what we can and must continue to do, what we stop and what we slow...

Our visitor centres are part of this review, but no decision has yet been made on how they will operate in the future.

Over the coming months we'll be drawing up options and recommendations for the future and the final decisions for 2024/25 will be made by our board before the end of March.

Wrth gyfeirio at ganolfannau ymwelwyr yng nghyfarfod bwrdd CNC ar 2 Chwefror 2024, dywedwyd:

Nid oedd cyllideb 2024/25 wedi'i chwblhau eto ac nid oedd y Bwrdd wedi cael cais i gymeradwyo unrhyw benderfyniadau ar ganolfannau ymwelwyr. Roedd gwybodaeth reoli yn cael ei chasglu ar gyfer penderfyniad erbyn diwedd mis Mawrth. Roedd yn bwysig osgoi cyfuno lefel y gwasanaethau a gallu'r cyhoedd i gael mynediad at dir. Byddai mynediad cyhoeddus i'r tir yn cael ei gynnal, ond pa fath o wasanaethau a ddarperir oedd dan ystyriaeth. Lle na allai CNC barhau i ddarparu'r

gwasanaethau hynny, byddai'n chwilio am eraill i ysgwyddo'r
gwasanaethau hynny.

Ym mis Mawrth 2024, cafwyd [adroddiad yn y Cambrian News](#) fod cynrychiolwyr CNC wedi mynychu cyfarfod cyhoeddus yn y Borth i drafod canolfan ymwelwyr Ynyslas. Dywedodd un o swyddogion CNC na fyddai'r ganolfan ymwelwyr yn cau ddiwedd mis Mawrth 2024, gan ddweud:

We are looking to keep things running for as long as we can, but it is difficult and we want to work with people to find a long term solution.

There is no secret plan, and no decisions have been made yet. But the reality is these visitor centres were built in a time of plenty, when we had funding we don't have now.

Dywedodd y Cambrian News hefyd fod canolfan ymwelwyr Ynyslas yn gwneud colled o tua £50,000 y flwyddyn, a bod CNC yn awyddus i weithio gyda phobl a mentrau lleol a allai fod â diddordeb mewn rhedeg caffi a siop y ganolfan ymwelwyr.

Cyfarfu Bwrdd CNC ddiwethaf ar [23 Mai 2024](#). Er nad oedd cofnodion terfynol y cyfarfod hwnnw ar gael i'r cyhoedd adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ymhlith yr eitemau a drafodwyd roedd Strategaeth Hamdden ddrafft CNC. Mae'r strategaeth ddrafft [yn cynnwys y datganiad hwn](#): "Erbyn 2030 bydd y Strategaeth wedi darparu'r cyfeiriad i, er enghraifft: Galluogi trydydd partion i gamu i mewn a chyflawni gweithgareddau twristiaeth dwys fel beicio mynydd a chanolfannau ymwelwyr".

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mae CNC yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. [Mae ei swyddogaethau'n cynnwys](#) rheoli 7 y cant o dir Cymru (gan gynnwys Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi a 55 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol eraill), cynnal amddiffynfeydd rhag llifogydd, ymateb i ddigwyddiadau amgylcheddol, a chynghori cyrff cyhoeddus. Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o gyllid CNC drwy Gymorth Grant a grantiau eraill. Yn 2022/23, daeth [59 y cant o incwm CNC](#) oddi wrth Lywodraeth Cymru, a chodwyd y gweddill drwy daliadau (17 y cant), incwm masnachol/incwm arall (21 y cant), a chyllid Ewropeaidd/allanol (2 y cant). Yn 2022/23, roedd cyfanswm ei wariant, sef £272m, yn fwy na'i incwm, sef £234m, sy'n awgrymu diffyg o £38m.

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 2 Ionawr 2024, atebodd y Prif Weinidog ar y pryd, Mark Drakeford, [gwestiwn Mabon ap Gwynfor](#) ynghylch y posibilrwydd o gau canolfannau ymwelwyr CNC, gan gynnwys Ynyslas, gan ddweud:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, fel pob gwasanaeth yma yng Nghymru, dan bwysau ariannol. Bydd dewisiadau anodd iddyn nhw wneud, fel rŷn ni wedi gwneud fel Llywodraeth dros y misoedd diwethaf, ond dwi'n siŵr pan fydd yr asiantaeth yn gwneud y penderfyniadau yna, byddan nhw'n gwrandio ar y pwyntiau mae'r Aelod wedi gwneud a phethau eraill mae pobl leol eisiau cadw.

Ategodd Huw Irranca-Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, y safbwynt hwn yn ei ymateb i'r ddeiseb hon. Tynnodd sylw at y pwysau cyllidebol sydd ar CNC a'r flaenoriaeth y mae'n ei rhoi i gyflawni ei swyddogaethau craidd a'i ddyletswyddau statudol. O ran canolfannau ymwelwyr, dywedodd fod CNC yn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys darparu cyfleoedd i fusnesau lleol, a gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymdeithasol a chymunedol, ond mai Bwrdd CNC fyddai'n gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol.

3. Camau gweithredu Senedd Cymru

Aeth Clare Pilman, Prif Weithredwr CNC, i'r afael yn uniongyrchol â phryderon ynghylch cau canolfannau ymwelwyr yn ystod y [sesiwn graffu flynyddol ar CNC](#) gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ym mis Ionawr 2024. Dywedodd wrth y pwyllgor nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch eu cau, ond bod rhaid i CNC ystyried yr holl opsiynau. Yn ei [adroddiad ym mis Mai 2024](#), awgrymodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, o ran canolfannau ymwelwyr, "y dylai CNC wneud popeth yn ei allu i sicrhau eu bod yn aros ar agor" ac argymhellodd y dylai CNC "adrodd i'r Pwyllgor hwn yn y chwe mis nesaf ar statws ei ganolfannau ymwelwyr".

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1447
Ein cyf/Our ref HIDCC/05514/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@gov.wales

21 Mehefin 2024

Annwyl Jack,

Deiseb P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Diolch am eich llythyr ar 24 Mai yn gofyn am fy marn ar faterion a godwyd yn Neiseb P-06-1447, yn gofyn am "Atal CNC rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas".

Fel y gŵyr Pwyllgor Deisebau'r Senedd, mae'r pwysau cyllidebol ar gyfer 2024-25 wedi cael llawer o sylw ac nid oes unrhyw sefydliadau wedi'u heithrio o'r sgysiau cyllidebol a'r penderfyniadau anodd iawn y bydd yn rhaid eu gwneud. Yn unol â hynny, mae CNC yn ystyried ei gylch gwaith ac yn adolygu'r holl weithgareddau mewn modd beirniadol, gan gydnabod bod cyflawni ei swyddogaethau craidd a'i ddyletswyddau statudol yn cael blaenoriaeth.

Gan roi sylw penodol i ddyfodol ei chanolfannau ymwelwyr, mae CNC yn ystyried lluo o opsiynau posibl, gan gynnwys darparu cyfleoedd i fusnesau lleol, gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymdeithasol a chymunedol i ymchwilio i ymarferoldeb rheoli'r canolfannau hyn ac ati yn y dyfodol.

Yn y pen draw, Bwrdd CNC sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad terfynol ar ddyfodol ei ganolfannau ymwelwyr. Deallaf fod CNC wedi cychwyn sgysiau gyda chymunedau perthnasol ynghylch opsiynau ar gyfer y canolfannau hyn yn y dyfodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Unwaith eto, diolch am ysgrifennu ataf am hyn. Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i chi yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of several fluid, overlapping loops and lines, positioned above the printed name.

Huw Irranca-Davies AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

P-06-1447 Stop Natural Resources Wales closing the visitor centre at Ynyslas National Nature Reserve - Correspondence from the Petitioner to the Committee, 30 June 2024

Dear Petitions Committee

I am writing as a member of the grassroots group Save Our Centre - Ynyslas - Achubwch Ein Canolfan. We set the group up when the centre staff told us they had been informed the centre was closing on December 31st 2023. NRW have subsequently denied making this decision, despite us having obtained a copy of the communication via an FOI request.

As a group of centre users, we are very concerned with the way in which NRW have treated the public and we have made a formal complaint which is now at 'level 2'.

We do not believe NRW are being honest with the public or with the Senedd. In the letter from the Minister, he says that he understands NRW are exploring commercial and local partnerships.

"NRW is considering a raft of possible options including provision of opportunities to local businesses, partnership working with social and community groups to investigate the feasibility of future management of these centres, etc."

However, we can confirm that NRW have made almost no attempt to engage with our group, Borth's County Councillor nor Community Council. They attended a public meeting in March 2024 and failed to answer most of the questions posed in advance. The transcript of the meeting makes it clear that they agreed to a follow up meeting, but they are now refusing set a date or even commit to that meeting.

Below is a recent communication one of our group has received from Elsie Grace, where she clearly states they will not consult with the public.

Dear Elizabeth

Thank you for getting in touch and sharing your concerns regarding Ynyslas and Natural Resources Wales's current strategy. I appreciate you taking the time to write to me and Sir David as all feedback is welcomed. Sir David has asked me to respond on his behalf, I have copied him into my reply to you.

I apologise that I was unable to attend the public meeting at Borth on the 1st of March as I was unwell. My colleagues who attended were able to share questions raised and whilst time has moved on there has been no change and no decision has been made.

The Visitor Centres' work is part of a larger exercise to review all our activities. We're assessing what we can and must continue to do, what to slow down, what to change, and what to stop, in order to live within our financial means. Once the NRW Board approves these proposals, we will communicate clearly with partners, stakeholders, and customers to explain the impact of changes on the services we can deliver. This will not be a public consultation, because it is for us to decide on our priorities and how we adapt to live within our financial means.

To clarify, it is the option to outsource that is being considered and not private-only options. The wider review will fundamentally influence our potential offer to market. We

won't hold another public meeting until staff have been informed of any outcome. We are currently looking at all the possible implications of such a change, but there is no decision at the moment.

If you have any more questions, please don't hesitate to get in touch.

Yours Sincerely
Elsie Grace

As Kim said in her response to you, Ynyslas is financially viable and NRW keep vacillating between whether it is a financial or another (undisclosed) reason. I would be very happy to have a meeting or phone conversation with the relevant elected representative to discuss my concerns, but they are mostly about NRW appearing to be unaccountable to anyone. We do not understand how this is acceptable.

I am attaching a copy of a letter I sent to all the Non-Executive Board Members and The Chair before the last Board Meeting. I have had NO response at all to this. It has a clear timeline of our concerns. I also attach the VC Futures Briefing Document from November 2023 where they laid out the following information to their staff:

Ynyslas - Key Messages:

- o The café and shop should not be opened in 2024, however the toilet facilities should remain open.

- o Ynyslas VC staff to transfer to Bwlch Nant yr Arian VC.

- o The VC should be offered to the community for use as a social enterprise or other community use. Commercial Team to progress discussions to ascertain interest.

- o Next steps would be to work with VC staff on site, Facilities, the Land and Place Management Teams. This to include how we should approach the operational practicalities of the proposed removal of carparking on the beach front.

NRW now claim the Futures Briefing Document was a miscommunication. I really hope someone at the Senedd takes this seriously.

Kind regards

Polly Ernest

Save Our Centre – Ynyslas – Achubwch Ein Canolfan



FAO All Non-Executive NRW Board Members

Dr Rosie Plumber,
Professor Steve Ormerod,
Geraint Davies,
Professor Calvin Jones,
Mark McKenna,
Dr Peter Fox,
Kathleen Palmer,
Helen Pittaway,
Professor Rhys Jones,
Lesley Jones,

Natural Resources Wales
Rivers House
St Mellons Business Park
St Mellons
Cardiff
CF3 0EY

May 14th 2024

Dear NRW Board Member

I am writing to you as a founding member of Save our Centre – Ynyslas – Achubwch our Canolfan. This unincorporated action group was set up last year in response to news that Natural Resources Wales was proposing to close the Ynyslas Visitor Centre and restrict car parking on the beach. The group has over 600 members on Facebook, holds regular meetings and has garnered over 2,200 signatures on a Senedd Petition (<https://petitions.senedd.wales/petitions/245961>) and almost 5,000 on a [Change.org petition](https://www.change.org/p/prevent-the-closure-of-ynyslas-visitor-centre) (<https://www.change.org/p/prevent-the-closure-of-ynyslas-visitor-centre>) in an attempt to keep the Centre open, save staff jobs and ensure the public can continue to park at and access the site at Ynyslas. We were not sure if our messages were getting through to the Non-Executive Board Meetings and have therefore decided to write to you.

I am very concerned with the way in which a publicly funded organisation is treating the public, and appears to be totally unaccountable or truthful. When we first heard that the staff had been advised the Centre was closing, we immediately contacted our elected representatives, who were, at the time, in the dark about it. Once our Senedd Member, MP and County Councillor made representations, they were informed that there had never been a proposal to close the Centre at the end of 2023 and that this was a 'miscommunication'.



Our initial idea was to try to speak to the executive to understand how the decision had been made and why. I felt strongly that Ynyslas Visitor Centre had been lumped in with larger, more commercially viable operations in being moved to the Commercial Department and should probably be transferred back to Operations. It is nearly impossible to commercialise the operation at Ynyslas further because there are few opportunities other than car parking. The beach is not a swimming beach due to dangerous currents, so despite space, it would not be possible to promote a surfing or wakeboarding business there. In addition, there is lots of unexploded ordinance and rare flora and fauna. The Centre is an excellent interactive education hub that informs visitors from a diverse catchment area about the importance of the dunes.

However, rather than meeting with us, the officers on NRW have actively avoided us. This includes cancelling a pre-arranged meeting with members of SoC Ynyslas AeC, with virtually no notice. That meeting with Elsie Grace was scheduled via Elin Jones's (Senedd Member) office, and I rescheduled my work diary to attend. The meeting has never been reconvened. Until I wrote to the Chair's Office I was unable to get any contact with the relevant people. Even now, Elsie Grace has responded to my queries but has not provided satisfactory answers.

Here is a rough timeline of what has happened:

- Staff were told in writing in December that the Visitor Centre was closing. (Official briefing document attached)
- When the public got on board to try and save the Centre, we were then told (via our political representatives) that there had been a communication error and that there had never been a plan to close the Centre.
- We were advised that a decision would be made about the Centre's future by the end of the 2023 financial year.
- A decision has not been made.
- It was initially intimated that the Centre was closing due to it losing money.
- A senior person within NRW described it as 'A room with a coffee machine'.
- As a public group, we had a meeting arranged (via Elin Jones Senedd Member) on February 14th with Elsie Grace at Ynyslas Visitor Centre. I rearranged my work schedule to attend. The meeting was cancelled at the last minute.
- A large public meeting was convened for March 1st at Borth Community Hall. We submitted questions in advance. At the last minute, it was announced that Elsie Grace could not attend the meeting, but Sarah Jennings could. Sarah Jennings had not seen any of the questions and could barely answer the ones posed. The acoustics in the hall were



terrible, and the sound system was inadequate. She had no visual aids or real explanations. Around 150 people attended and received no concrete answers. Sarah Jennings claimed that up to 3,000 cars were parked at the site on busy days, which is an impossible number. Last Saturday was super busy, and there were 250 cars.

- NRW advised that despite a recruitment ban, they were bringing on temporary staff via an Agency to keep the Centre open until September
- After the meeting, group members started to get responses that contradicted what had been said in the meeting. NRW was now claiming it was not considering closing the Centre on financial grounds but on environmental ones.
- All the communications sent contradict each other.
- Our Senedd member (Elin Jones) has sent us a message to say NRW are in conversation with Borth Community Council
- When we asked Borth Community Council about this, they said they could not get any response or feedback from NRW – despite promises of a follow-up meeting in April.
- The country councillor has also been unable to get any commitment to a future meeting.
- Yesterday, I sent a Freedom of Information request asking for the Ynyslas -Centre Futures Staff Briefing Note issued on November 29th and received it by return email. (enclosed)

As you can see, the Ynyslas -Centre Futures Staff Briefing Note lays out a clear proposal to close Ynyslas, which is in complete contradiction to everything we have been told. See example of a question response sent after the Borth Public Meeting at which Sarah Jennings repeatedly told the public that there was no proposal to close the Centre at the end of last year. (I can send a transcript of the meeting if required).

Was there a proposal to close Ynyslas VC on the 31st December 2023? If so who decided not to pursue this plan and why?

- There was no proposal put forward to close the VC on this date. There was a miscommunication that resulted in a belief that a decision had been made to close the VC by the end of the year. This mistake was rectified and the review of Ynyslas is ongoing.

I wonder if this is behaviour that you would expect of a publicly funded organisation, one of which you are a non-executive director. Having been a non-executive director of an Arts Council-funded organisation in the past, I know I would want answers to questions and proper accountability if I were in your shoes.

Thank you for taking the time to read this letter, and I look forward to hearing from you and getting feedback. I have submitted questions to the Board Meeting about this matter and raised an official (level 2) complaint.

Save Our Centre – Ynyslas – Achubwch Ein Canolfan



Yours sincerely

Polly Ernest

On behalf of Save our Centre – Ynyslas – Achubwch ein Canolfan

Cc Sir David Henshaw – Chair, NRW
Clare Pillman – CEO, NRW
Vaughn Gething – First Minister, Senedd
Irranca-Davies - Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs,
Senedd

Atal llygredd ym Mae'r Tŵr Gwyllo ac Aberogwr

Y Pwyllgor Deisebau | 8 Gorffennaf 2024
Petitions Committee | 8 July 2024

Cyfeirnod: SR24/8973-1

Rhif y Ddeiseb: P-05-1448

Teitl y ddeiseb: Atal llygredd ym Mae'r Tŵr Gwyllo ac Aberogwr

Geiriad y ddeiseb: Dosbarthwyd Bae'r Tŵr Gwyllo ac Aberogwr yn ddyfroedd ymdrochi dynodedig newydd yn 2023.

Mae'r ddau draeth bellach wedi methu â chyrraedd y gofynion isaf ar gyfer ansawdd dŵr ymdrochi, a nhw oedd yr unig safleoedd ymdrochi yng Nghymru i fynd i'r categori 'gwael', gyda Llywodraeth Cymru yn dweud bod hyn yn "siomedig".

Yn hytrach na chodi arwyddion yn rhybuddio pobl i beidio â nofio ar y traethau hyn, dylai'r Cyngor, Dŵr Cymru a Llywodraeth Cymru fod yn gweithredu i atal y llygredd hwn.

Rydym wedi bod yn ymgyrchu ers nifer o flynyddoedd yn erbyn y llygredd carthion sy'n mynd i'r Hen Harbwr a Bae'r Tŵr Gwyllo yn y Barri.

Rydym wedi nodi mai pibellau gollwng carthion dynol a'r bibell gollwng o lyn y Cnap, sydd â phoblogaeth fawr o elyrch a gwyddau yn byw yno, yw prif achos y llygredd hwn mwy na thebyg.

Mae angen trin y dŵr hwn mewn tanciau cadw cyn ei ryddhau i'r môr.

Mae angen gweithredu i atal y llygredd ym Mae'r Tŵr Gwyllo ac Aberogwr... digon yw digon!

Byddwn yn dod â'r ddeiseb hon i ben ar Ddiwrnod Cefnforoedd y Byd ddydd Sadwrn 8 Mehefin 2024...mae taer angen i ni amddiffyn ein cefnforoedd!



1. Y cefndir

Mae dau bapur briffio gan Ymchwil y Senedd yn rhoi cefndir cynhwysfawr i'r pwnc hwn:

- Mae'r [canllaw ar ansawdd dŵr yng Nghymru](#) yn amlinellu sut y mae safonau ansawdd dŵr yn cael eu gweithredu, eu monitro a'u cynnal, a phwy sy'n gyfrifol. Mae hefyd yn trafod rhai o'r prif heriau o ran ansawdd dŵr yng Nghymru, a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud i fynd i'r afael â hwy.
- Mae'r papur [gorlifoedd storm yng Nghymru](#) yn edrych sut y mae gorlifoedd storm cwmnïau dŵr yn cael eu rheoli, pa mor dda y deallir nhw, a sut maen nhw'n effeithio ar ansawdd dŵr.

Samplu ansawdd dŵr ymdrochi a chanlyniadau 2023

Mae [109 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru](#), a ddynodwyd o dan [Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013](#). Ceir rhagor o wybodaeth am ddynodi a dosbarthiad dŵr ymdrochi yn yr [erthygl hon gan Ymchwil y Senedd](#).

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, dywed Llywodraeth Cymru mai nod dynodiad yw "diogelu iechyd ymdrochwyr rhag llygredd a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd fel y gall pobl wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch ble a phryd i ymdrochi".

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am fonitro dyfroedd ymdrochi dynodedig ac am gyfleu'r canlyniadau i'r cyhoedd. Mae'r [Adroddiad dŵr ymdrochi Cymru 2023](#) gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dangos bod 107 o'r 109 o ddyfroedd dynodedig yn bodloni'r safonau a osodwyd gan y Rheoliadau, gyda [Bae'r Tŵr Gwyllo](#) ac Aberogwr yn ddyfroedd ymdrochi nad ydynt yn cydymffurfio. Cafodd y ddau draeth eu dynodi o'r newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023, ac mae adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn egluro bod dosbarthiadau yn nodweddiadol yn seiliedig ar bedair blynedd o ddata ansawdd dŵr ymdrochi, fodd bynnag data 2023 yn unig a ddefnyddir. Roedd y data yn dangos:

At Watch House Bay four out of twenty samples had elevated bacteria levels, these were all taken during or following periods of wet weather.

...

At Ogmore by Sea six out of twenty samples had elevated levels of bacteria. Rainfall and river level data for the River Ogmore and River Ewenny catchments was assessed against the bathing water sample

results. This showed poorer water quality following rainfall and elevated river levels.

Yn sgil y samplu hwn dyfarnwyd bod y dyfroedd ymdrochi wedi'u dosbarthu fel 'gwael'. Mewn ateb i'r ddeiseb hon, dywedodd Huw Irranca-Davies AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, fod cynnydd sylweddol o ran glaw dros y tymor ymdrochi 2023 wedi arwain at gynnydd mewn achosion o lygredd o amrywiaeth o ffynonellau.

Dywed Cyfoeth Naturiol Cymru fod llawer o ffynonellau tebygol o lygryddion yn y ddau ddalgylch sef, llygredd gwasgaredig o ddraenio trefol, camgysylltiadau, y defnydd o dir gwledig a bywyd gwyllt. Mae'n amlygu y bydd rhagor o waith monitro yn ystod tymhorau dŵr ymdrochi yn y dyfodol yn rhoi gwell dealltwriaeth, ac y bydd yn gwneud fel a ganlyn:

... work with the Vale of Glamorgan Council, Shared Regulatory Services and Dŵr Cymru to investigate the reasons behind these failures and to work towards improving the results in future years.

Camau gan Lywodraeth Cymru

Mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar amgylcheddau dyfrol Cymru, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Tasglu Gwella Ansawdd Afonydd ("y tasglu") i werthuso'r dull presennol o reoli a rheoleiddio gorlifoedd. Mae'r tasglu wedi nodi pum maes ar gyfer newid a gwelliant y mae angen gweithredu ymhellach arnynt.

Ym mis Hydref 2023 cyhoeddodd y Tasglu Adroddiad Tystiolaeth ar Orlifoedd Storm yng Nghymru o dan ei Gynllun Gweithredu Rheoleiddio Amgylcheddol ar gyfer Gorlifoedd. Mae'r adroddiad yn cymharu costau a buddion gwahanol ddewisiadau o ran polisi wrth reoleiddio gorlifoedd stormydd cyfun. Dywedodd Julie James AS y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, y bydd y tasglu "yn ystyried yr adroddiad yn ofalus ac yn nodi'r camau nesaf".

Yn ei ateb ynghylch y ddeiseb hon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn "siomedig" bod Bae'r Tŵr Gwyllo ac Aberogwr wedi derbyn dosbarthiadau 'gwael' yn 2023. Mae'n tynnu sylw at waith ymchwiliol sy'n cael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall y rhesymau dros y methiannau, a dywed:

... mae'r ymchwiliadau hyn yn gwneud cynnydd da ond maent yn gymhleth ac yn gofyn am gryn amser ac arian i weithio'n llawn,

ac yn aml maent yn dibynnu ar weithgareddau ategol gan sectorau ehangach.

2. Camau gan Senedd Cymru

Ar ddechrau 2022, cynhaliodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ymchwiliad i ollyngiadau carthion, a'u heffaith ar ansawdd dŵr. Trafodir canfyddiadau'r Pwyllgor yn yr erthygl hon gan Ymchwil y Senedd. Ers hynny, mae wedi cynnal gwaith craffu ar berfformiad amgylcheddol Dŵr Cymru a "gollyngiadau anghyfreithlon o garthion heb eu trin" o nifer o'i weithfeydd trin dŵr gwastraff. Cyhoeddodd ei Adroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru ym mis Chwefror 2024.

Cynhaliwyd dadl flaenorol yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mawrth 2022 ar gynnig deddfwriaethol ar gyfer Bil gan Aelod i leihau effaith andwyol gorlifoedd stormydd. Derbyniwyd y cynnig.

Ym mis Rhagfyr 2023, cyflwynodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ar ansawdd dŵr, pan drafodwyd gorlifoedd stormydd ac ansawdd dŵr ymdrochi.

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi ystyried y deisebau diweddar a ganlyn yn y maes hwn:

- P-06-1281 Rhaid atal gollyngiadau carthion amrwd ar fyrder ym Mae'r Tŵr Gwyllo a'r Hen Harbwr yn y Barri (deiseb wedi'i chau); ac
- P-06-1398: Cynyddu effeithiolrwydd gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru i atal llygredd yn yr Afon Teifi (o dan ystyriaeth).

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1448
Ein cyf/Our ref HIDCC/05515/24

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Government.Committee.Business@llyw.cymru

14 Mehefin 2024

Annwyl Jack Sargeant,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Mai ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb *P-06-1446 Atal llygredd ym Mae'r Tŵr Gwyllo ac Aberogwr*.

Mae sicrhau bod ein dŵr o'r ansawdd uchaf yn rhan hanfodol o wneud Cymru yn lle ffyniannus, hapus ac iach i fyw ynddo ac ymweld ag ef. Mae dŵr ymdrochi o ansawdd uchel yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, wrth inni barhau i weld nofio awyr agored a gweithgareddau hamdden yn y dŵr yn mynd ym fwy poblogaidd yng Nghymru. Yn ein Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi ymrwymo i ddechrau dynodi rhagor o ddyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden ac wedi atgyfnerthu ein gwaith monitro ansawdd dŵr.

Prif bwrpas [Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013](#) yw nodi safleoedd ymdrochi poblogaidd i'w dynodi a monitro ansawdd dŵr ar y safleoedd hyn yn ystod yr adegau mwyaf poblogaidd. Y nod yw diogelu iechyd ymdrochwyr rhag llygredd a darparu gwybodaeth i'r cyhoedd er mwyn iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am ble a phryd i ymdrochi. Mae cynnydd sylweddol mewn glaw yn ystod tymor ymdrochi 2023 wedi arwain at ragor o achosion o lygredd o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys llygredd gwasgareddig o ddŵr ffo amaethyddol, dŵr ffo o briffyrdd, gollyngiadau dŵr gwastraff, gollyngiadau o orlifoedd storm cyfun a llygredd diwydiannol.

Felly, er fy mod yn cytuno'n llwyr ei bod yn destun siom bod ein dau gorff dŵr ymdrochi sydd newydd eu dynodi wedi derbyn statws 'gwael' yn 2023, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cymryd camau cadarn i ddeall a mynd i'r afael â phroblemau ansawdd dŵr yn y ddau leoliad, ac mae hyn, mewn gwirionedd, yn dangos bod y rhaglen dŵr ymdrochi'n gweithio yn ôl y disgwyl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym Mae'r Tŵr Gwyllo, mae'r dalgylch o'i gwmpas yn ddalgylch trefol cymhleth mawr gyda sawl gorlif storm a dau safle trin carthion mawr. Mae CNC yn cynnal nifer o archwiliadau i ddeall yn well bwysigrwydd cymharol ffynonellau llygredd sy'n effeithio ar Fae'r Tŵr Gwyllo. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Gynnal adolygiadau cydymffurfio o'r gorlif storm gerllaw ar Harbour Road a safle trin dŵr gwastraff Cog Moors.
- Adolygu adroddiad ymchwilio ar ddigwyddiad sbardun yng Ngollyngfa Môr Byr yr Orsaf Pwmpio Carthffosiaeth yn Nhref y Barri ym mis Awst 2023. Rhoddwyd hwn i CNC gan Ddŵr Cymru ar 30 Mai 2024 yn unol â'r canllawiau a'r gofynion presennol ar gyfer trwyddedau. Gall CNC nawr asesu'r cyflwyniad a chydymffurfedd yr ased ag amodau'r drwydded.
- Blaenoriaethu'r gollyngiadau a ganiateir yn y dalgylch ar gyfer archwiliadau pellach yn rhaglen gydymffurfio 2024–25. Mae hyn yn cynnwys cyfuniad o archwiliadau safle, adolygiadau monitro ac archwiliadau data.

Ym mis Ebrill, cynhaliodd CNC ymweliad ar y cyd â Bae'r Tŵr Gwyllo â'r awdurdod lleol a Dŵr Cymru, i gynnal gwiriadau cyn y tymor, a chadarnhaodd fod arwyddion perthnasol wedi cael eu gosod gan yr awdurdod lleol, sy'n ofyniad gan y Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi.

Yn y cyfamser, mae archwiliadau rhagarweiniol CNC yn dalgylch Aberogwr yn nodi bod y dalgylch ehangach yn fawr ac mae'n debygol y bydd llygredd gwasgaredig o ddraenio trefol, cysylltiadau diffygiol a defnydd tir gwledig. Mae poblogaeth fawr o adar yn yr aber isaf, a da byw sy'n pori - yn ogystal â'r afon yn cael ei chroesi'n rheolaidd gan geffylau o'r stablau lleol. Ar ben hynny, mae nifer o asedau'r cwmni dŵr yn y dalgylch, gan gynnwys safle trin carthion a gorlifoedd storm, a sawl eiddo domestig gyda threfniadau carthffosiaeth preifat yn yr aber. Cafodd Aberogwr ganlyniad samplu arbennig o uchel ar 14 Awst 2023, ond nid yw hyn yn anghyffredin, a chafwyd nifer o ganlyniadau uchel yn 2023, yn gysylltiedig yn bennaf â digwyddiadau tywydd gwlyb.

Yn yr un modd ag ym Mae'r Tŵr Gwyllo, mae CNC hefyd yn ymgymryd â sawl ymchwiliad i ddeall a mynd i'r afael â'r ffynonellau llygredd sy'n effeithio ar ddŵr ymdrochi Aberogwr. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Asesu'r gollyngiadau storm yng ngorsaf bwmpio Ewenni gerllaw, sydd wedi'i nodi o dan y Rhaglen Fframwaith Asesu Gorlifoedd Storm.
- Adolygu adroddiad gan Ddŵr Cymru ar safle trin dŵr gwastraff Pen-y-bont gerllaw, yn dilyn digwyddiad ym mis Awst 2023 a aeth y tu hwnt i'r sbardun. Mae CNC hefyd yn ymateb i ddigwyddiad llygredd mwy diweddar o Ben-y-bont ym mis Mai 2024.
- Gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru ac awdurdodau lleol i nodi a mynd i'r afael â chysylltiadau diffygiol o fewn y dalgylch.
